CLONC

www.clonc.co.uk

Enillydd Gwobr Menter Cymunedol Gwobrau Busnes Ceredigion 2007

ISSN 1753-1071

Rhifyn 266 - 50c
Medi 2008

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Dyfodol Ysgol Leol

Tudalen

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen

Lle aeth pawb?

Tudalen

Anrhydeddu

Cynnwys:

Tud 2 – Priodasau'r Haf
Tud 9 – Lle aeth pawb?
Tud 10 – Ras yr Wyddfa
Tud 14 – Cadwyn Cyfrinachau
Tud 15 – Hanes 'Steddfod
Tud 16 – Y Babell Lên
Tud 20 – Enwau Lleoedd Lleol
Tud 23 – Yn y Gegin
Tud 25 – Sioeau lleol

Lowri Lloyd, Caerfyrddin ond yn enedigol o Landybie ac un o ddisgyblion y Prif fardd Idris Reynolds oedd Bardd y Goron, ac yn ennill yn Eisteddfod Llambed am yr ail waith - y tro cyntaf yn 2002.

Johnny Williams o Lambed yn cael ei anrhydeddu gan lywydd y sioe a'i wraig, Trebor ac Ann Edwards a hynny am ei gyfraniad eithriadol i Adran Aelodaeth y Sioe.



Enillydd y Gadair - Vernon Jones, Bow Street gyda phlant y ddawns flodau, disgyblion Ysgol Cwrtnewydd. Mae Vernon wedi ennill dros hanner cant o gadeiriau a dwy goron, a dyma'r ail gadair iddo ei hennill yn Llambed. Bu Vernon ar staff y Cambrian News am ddeg mlynedd ar hugain nes iddo ymddeol.

Priodasau'r Haf

Rhian, merch hynaf Eric a Mair Jones, Pant-têg, Pentrebach, Llambed a Hywel, unig fab Tim ac Evana Lloyd, Dolgwartheg, Aberaeron wedi eu priodas yn Eglwys St Pedr, Llambed ar Sadwrn Gorffennaf 26ain Llun Tim Jones

Helen Roberts o Barc-y-rhos ac Euros Davies o Dalsarn a briododd yng Nghapel Noddfa Llanbedr Pont Steffan ar yr 2ail o Awst. Dymuna'r ddau ddiolch i bawb am yr holl gardiau, arian, anrhegion a'r dymuniadau gorau.

Annwen unig ferch Geraint a Eiddwen, Maesycelyn, Llanllwni a Huw, mab ieuangaf William a Mali Evans, Rylwyn, Llanybydder wedi eu priodas yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni.

Lyn Thomas 1 Heol Hathren Cwmann a Lucy Hagger Llanilltud Fawr a briodwyd yn Eglwys Sant Cattwg, Llanfaes ar Fehefin y 7fed.

Eirig Jones, Gorlan a Lowri Harris, Rose Cottage, Cribyn a briodwyd yn Eglwys Sant Silin, Cribyn ar y 9fed o Awst 2008 a chafwyd y dathlu i ddilyn yn Nhyglyn Aeron, Ciliau Aeron.

Llwyddiant Disgyblion y Fro

Melanie Thomas,4* 3A 3B; Sian Jenkins, 7* 4A 1B; Nia James, 5* 6A; Catrin Jones, 3* 7A 1B; Seb Lee, 5* 3A 2B; Jane Davies, 8* 4A; Amy Richardson, 2* 7A 3B, Heledd Thomas, 2* 9A; Tomos Harris, 7* 5A; Eden Davies, 3* 6A 1B; Victoria Lee,8* 4A; Rhian Thomas, 9* 2A; Chris Ashton, 4* 5A; Aled Wyn Thomas, 9* 2A;

Lefel 'A' rhagorol - Sarah Borsay; Sarah Morgan; Diane Chrich; Siwan Davies; Anwen James; Aled Thomas; Kenny Chiang; Shaun Ablett; Iestyn Russel a Richard Milcoy.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Medi	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Hydref	Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gwyliau

Mae bod i ffwrdd o'r cyfrifiadur am ddau fis yn creu problemau. Mae'r cof yn pallu ac mae pethau'n diflannu oddi ar y sgrin heb yn wybod i mi. Dyna fe, rhaid ceisio gwneud y gorau am ychydig eto. Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant dros y mis diwethaf. Mae gwylio'r mabolgampau ar y Teledu yn gwneud i ni sylweddoli mai'r tri cyntaf o hyd sy'n cael y sylw ond mae'r ddwy lythyren " P.B" yn golygu fod y person yma wedi gwneud yn well nag a wnaeth erioed o'r blaen. Felly cymerwch gysur os na lwyddoch i gael y fedal Aur, Arian neu Efydd dim ond eich bod wedi gwneud eich gorau glas.

Tywydd

Mae'n rhyfedd, byddwch chi byth heb rywbeth i siarad amdano tra fod ein tywydd mor gyfnewidiol. Bu Llanelwedd a Llambed yn lwcus ofnadwy o'u Sioeau Amaethyddol. Mae'n wael i'r cynhaeaf. Rydym yn ffodus y ffordd hyn fod gennym ddigon o beiriannau, fel pan, neu os y cawn dywydd, gellir ei gynhaeafu'n gyflym. Diddorol oedd gweld yn yr arddangosfa wych yn y neuadd yn Llanfair o hen offer ffermio i feddwl fy mod i'n gyfarwydd â defnyddio llawer iawn ohonynt. Da iawn Llanfair– roedd deunydd gwych ar gael i ysbrydoli pawb.

Caerdydd.

Wedi dau ymweliad â Chaerdydd, beth sy'n aros yn y cof? Y daith o Erddi Soffia i'r maes. Iawn os oeddech yn iach a bod hi ddim yn bwrw glaw. Gwelais brinder o fflagiau yn ein croesawu i'r Eisteddfod, meddyliais i ddechrau mae dilyn esiampl yr Olympics oedd Caerdydd ac yn gwarafun y Ddraig, ond yn deall wedyn fod yn rhaid cael caniatad Cyngor y Ddinas cyn arddangos baneri. Onid ydym wedi mynd yn gaeth i fân reolau – boed yn Gynllunio neu Iechyd a Diogelwch. Wedi cyraedd y maes – ymlacio – cwrdd â llu o gyn ddisgyblion Tregaron gan fod gennym aduniad ar y maes, a llawer o'r ardal naill ai yn cystadlu neu yn diddori ar y maes. Roedd un peth yn arbennig – y cyfleoedd i blant gymeryd rhan, o baentio wynebau , cwis tân, adeiladu robot, sglefrio a dringo wal, yn ddim ond yr ychydig o weithgareddau i ddiddori plentyn ac i sicrhau parodrwydd i blant edrych ymlaen am fynd eto. Da iawn Caerdydd.

Teledu

Os na lwyddoch chi i ymweld â'r Sioe yn Llanelwedd, yr Eisteddfod yng Nghaerdydd neu'r Olympics yn Beijing – ond fod gennych deledu fe welsoch y cyfan. Clywais un yn achwyn fod ei phen ôl yn dost gan iddi dreulio wythnos gyfan yn dilyn yr Eisteddfod! Yr ydym yn cael gwerth ein harian ac mae teledu i rai anabl yn werth y byd.

Drewdod

Mae yna berygl fod deddfwriaeth ar y ffordd i warafun ffermwyr i wasgaru 'slyrri' ar y tir ond ar ryw amser penodol o'r flwyddyn.

Ydy y mae slyrri yn drewi am ychydig ond a ydyw'r rhai sy'n creu rheolau fel yma yn gwynto'n waeth? Fe lwyddodd un ffermwr yn nalgylch Clonc i gael gwared ar gymydog poenus trwy fynd a slyrri ar draws cae cyfagos am rhyw hannercanllath bob dydd. Gobeithio nad oes gennyf i gymydog dialgar!!

Hwyl am y tro,
CLONCYN

Rhai o blant y pentref yn mwynhau yn Sioe Llanllwni.

Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, yn ennill y wobr gyntaf yn Sioe a gwerthiant Defaid Llanwenog.

Ken Perthyberllan, Dewi Nanthendre, Gladys Perthyberllan a Bowen Blaenblodau yn rhoi'r byd yn ei le yn Sioe Llanllwni!

Yn y llun o'r chwith - Natalie Moore, Dirprwy ferch; Elin Jones, Prif ferch; Russell Pink, Prif fachgen; Luned Mair, Dirprwy ferch a Shawn Brown, Dirprwy fachgen

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Bu'r aelodau am daith unwaith eto ar Awst 13eg, ac er ei bod hi braidd yn wlyb yn ardal Llanwenog wrth gychwyn, fe wellodd pethau wrth fynd tua'r gogledd.

Aros am 'baned yn Llety Parc, Llanbadarn, cyn mynd ymlaen i Machynlleth. Diwrnod marchnad yno, felly digon i'w weld, a rhai'n ymweld â Senedd-dŷ Owain Glyndŵr yn y dref.

Nôl i'r bws, a theithio o gwmpas Tal-y-llyn ac i Dywyn. Awr fach hwylus yno cyn mynd am Aberdyfi, a chael awr a hanner yno. Awel y môr wedi codi chwant bwyd ar bawb, felly nôl i Rhydypennau am swper blasus iawn,- a digon ohono!!

Bydd trip ola'r Haf ar Ddydd Mawrth - (sylwch y diwrnod), Medi'r 9fed, a hynny i Cross Hands a Chastell Dinefwr Y bws i gychwyn o Lambed am 9 o'r gloch. Enwau i Yvonne (480590).

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cynhaliwyd cyfarfod o'r cyngor ar 29ain o Orffennaf yn Neuadd y Pentref, Drefach. Yn bresennol roedd Cyng. Alun James (Cadeirydd), Cyng. Daniel Evans, Cyng. Daff Davies, Cyng. Mary Thomas, Cyng. Geraint Davies, Cyng. Huw Davies, Cyng. Lewis Davies, Cyng. Geraint Hatcher a'r Cyng. Alun Davies. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. William Green, Cyng. Gwilym Jenkins a'r cynghorydd sirol sef y Cyng. Haydn Richards.

Nid oedd buddiannau personol i'w datgelu.

Yn dilyn cofnodion mis Mehefin, cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ynglŷn â symud yr hysbysfwrdd o'r cysgodfan i'r Neuadd yn Nrefach. Roedd y Cadeirydd wedi cwrdd â Mr Eifion Davies (aelod o bwyllgor y Neuadd) i bendefynu lle yn union i roi'r hysbysfwrdd ac fe benderfynwyd ei roi ar wal allanol gerllaw drws y Neuadd. Awgrymodd y Cyng. Alun Davies efallai y dylid cysylltu gyda'r adran gynllunio yn Aberaeron rhag ofn bod angen hawl i symud yr hysbysfwrdd. Addawodd y Clerc wneud hyn.

Fe ddywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi bod yn cerdded llwybr cyhoeddus Glanyrafon a bod angen cwtogi'r tyfiant a chywiro'r sticil sydd yno. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater. Gofynnodd y Cyng. Mary Thomas os oedd sôn am arwyddion cŵn i'r Gymuned. Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor ac maent wedi addo y bydd yr arwyddion wedi eu gosod yn fuan.

Cafwyd sgwrs ynglŷn â digwyddiad cymdeithasol fel y soniwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf. Penderfynwyd ar daith gerdded o fewn y gymuned, i'w chynnal ar y pedwerydd o Hydref am 1 o'r gloch y prynhawn.

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc wedi iddynt fynychu cyfarfod Un Llais Cymru yn Aberaeron.

Derbyniwyd llythyr wrth BT ynglŷn â chynigion adlunio'r ddarpariaeth i deleffonau yn y gymuned. Roedd 'na ddwy giosg ar y rhestr, sef Bro Gwenog a Blaencwrt. Gofynnwyd i'r clerc ymateb i'r llythyr.

Roedd y clerc wedi derbyn amcan bris i drwsio'r cysgodfan yn Alltyblaca, fe'i trafodwyd gan y cyngor a phenderfynwyd bwrw 'mlaen gyda'r gwaith.

Gofynnodd y Cyng. Mary Thomas ar gais aelod o'r cyhoedd os oedd modd cael arwydd Araf/Slow ar y ffordd rhwng Taigwynion a Phantycelyn ym Mlaencwrt gan fod y ffordd mor gul, hefyd, fod lamp olau tu allan i Bantyronnen Fach angen ei thrwsio- y clerc i gysylltu â'r cyngor sir am y ddau fater.

Roedd y Cyng. Geraint Davies wedi cael cais i wneud rhywbeth am gyflwr y tarmac sydd gerllaw pont Drefach. Yn sgil hyn, cafwyd trafodaeth gan fod difrod wedi ei wneud i wal y bont unwaith eto. Penderfynwyd cael cynrychiolaeth allan o'r cyngor Sir i gwrdd â'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Geraint Davies a'r Cyng. Alun Davies i drafod y mater. Y Clerc i drefnu'r cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9fed o Fedi am 7.30 o'r gloch.

Ysgol Llanwenog

Croeso i Karolina Kuwalek, merch o deulu Pwylaidd sydd wedi dechrau'r ysgol y tymor yma. Mae'n ymgartrefu'n dda yn ein plith.

Braf oedd croesawu Ysgol Gynradd Cribyn, Cwrtnewydd, a Llanwnnen atom am brynhawn o Chwaraeon ar safle'r Ysgol dydd Mawrth 25ain o Fehefin. Roedd y tywydd yn ffafriol a braf oedd gweld y cymdeithasu ymysg y plant yn cael ei ail gydio ers eu hwythnos ym Mhentywyn.

Cynhaliwyd noson o feicio noddedig i rieni, staff a ffrindiau'r ysgol noson cyn ein diwrnod codi arian eleni. Trodd y noson yn un gymdeithasol iawn wrth i'r criw dorri eu syched mewn ambell bentref ar hyd y daith! Erbyn cyrraedd nôl i'r ysgol braf oedd derbyn lluniaeth ysgafn a oedd wedi cael ei baratoi ar ein cyfer. Diolch i'r sawl a fu'n gyfrifol am hyn. Syfrdanwyd ni hefyd gan y swm rhyfeddol a godwyd gan y beicwyr a charwn fel staff yr Ysgol estyn ein diolch mwyaf diffuant i bawb a'n cefnogodd.

Llywydd ein Diwrnod Hwyl eleni oedd Mrs Siân Davies, Cyn Brifathrawes yr Ysgol a braf oedd cael ei chroesawu hi, ei gŵr a'i hwyres fach nôl atom. Cafwyd araith ddiddorol ganddi a charwn fel ysgol ddiolch yn fawr iawn iddi am ei rhodd hael i'r coffrau. Cyflwynwyd blodau iddi hi a'i phriod gan Molly Greenfield a Rhys Jones, sef, aelodau ieuengaf a hynaf yr ysgol. Hyfryd oedd gweld cymaint o gefnogaeth yr ardal yn ystod y prynhawn.

Trefnwyd ras noddedig i blant cynradd gan Mr Peter Davies a Mrs Jackie Davies. Diolch yn garedig i Mr Peter Chadwick am noddi'r medalau a'r tariannau i'r rhedwyr.

Diolch i holl rieni'r ysgol am osod a chynnal yr amrywiol stondinau ar y dydd. Fel atyniad ychwanegol eleni daeth Mr & Mrs J. Davies, Bwlchmawr, â cheffyl i'r plant ei farchogaeth yng nghae yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i chwithau hefyd am drefnu hyn. Stondin deniadol newydd a ddenodd y plant bach ati eleni oedd yr un gan Cylch Meithrin Gwenog a diolch iddynt am fod yn rhan o'r diwrnod.

I gloi y diwrnod llewyrchus, cafwyd llawer o sbort wrth i'r plant a'r oedolion gystadlu mewn cystadleuaeth 'Her Cadw'n Sych'. Sbri yw nodi na fu'r tîm olaf yn llwyddiannus i gynnal yr her!! Diolch i bawb a fu mor barod i gymryd rhan yn y weithgaredd newydd yma a drefnwyd gan Mr Steven Greenfield.

Diolch unwaith eto i bawb a sicrhaodd lwyddiant ysgubol y diwrnod. Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs J. Howells, Tŷ Cam am ganiatau i ni i barcio ein ceir yn y cae yn ystod ein penwythnos o weithgareddau codi arian, ac fel Ysgol dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd ym Mhentrecwrt.

Bu'r Adran Iau yn gweld perfformiad o Sioe Twm Sion Cati yn Theatr Felinfach yn ddiweddar. Fel arfer llwyddodd Cwmni Arad Goch ddod â hanes y dyn yma o Dregaron yn fyw i'r plant.

Diolch i Ysgol Cwrtnewydd am ein croesawu draw atynt i wrando ar gerddorfa Athrawon Teithiol y Sir yn ystod y mis diwethaf. Fel canlyniad i'r perfformiad mae mwy o blant yr ysgol wedi dangos diddordeb mewn derbyn gwersi offerynnol ym Medi, 2008.

Aeth cynrychiolaeth dda o'r ysgol i ymuno ag Ysgolion Eglwysig eraill mewn gwasanaeth 'Catalydd' yn Nant-y-ci ar Orffennaf y 5ed. Roedd ein plant wedi derbyn gwahoddiad i gynnal deng munud o adloniant ym mhabell yr Ieuenctid a chafwyd eitemau amrywiol ganddynt fel llefaru, chwarae'r ffidil, gweddio a chanu. Gwnaeth pawb eu rhan yn ganmoladwy iawn. Diolch i rieni'r ysgol am gefnogi'r diwrnod o fawl yma.

Cyd-berfformiodd y plant sioe am hanes 'Sion Philip' a 'Syr Herbert Lloyd' Plas Ffynnonbedr gydag aelodau o Ysgol Gynradd Cribyn yn theatr Felinfach ar ddiwedd y tymor. Bwriad y perfformiad yma oedd i ddanfon copiau i'n hysgolion bartner yn yr Almaen a Denmarc. Diolch i Mrs Gwyneth Davies a Mrs Nanna Ryder am ysgrifennu y sgript a geiriau'r caneuon.

Cafwyd hwyl fawr gyda'r cystadlu ar ein diwrnod Mabolgampau eleni gyda'r plant i gyd yn gwneud eu gorau o flaen tyrfa dda o gefnogwyr gan gynnwys teuluoedd a ffrinidau. Unwaith eto roedd yn hyfryd i gael cwmni Seflydiad y Merched, Llanwenog a fu'n brysur yn rhoi rhubanau a pharatoi te blasus iawn i'r plant. Diolch o waelod calon. Diolch hefyd i Mr Roy Bracy, ein tirmon am baratoi'r cae. Eleni capteniaid Cledyn, sef y tîm buddugol, oedd Steffan Evans ac Emma McEnery, a chapteniaid Gwenog oedd Rhys Jones a Dyfan Unsworth. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan.

Dydd Mercher olaf y tymor trodd pawb eu gorwelion at draeth y Cei. Yn ystod y dydd buom yn ymweld ag orsaf y Bad Achub, mynd ar daith yn y cwch i weld y dolffinod, gweud her creu gwahanol greaduriaid y môr ar y traeth gan ddefnyddio deunyddiau naturiol o'u cwmpas. Bu'r Babanod yn cymharu'r ardal glan môr yma i ardal wledig Llanwenog. Hefyd, buom yn adeiladu cestyll tywod crand a buont yn mwynhau trochi yn y môr ac wrth gwrs nid yw unrhyw drip glan môr yn gyflawn heb fwynhau plated o sglodion a hufen iâ i orffen!

Dymuniadau gorau i holl blant yr ysgol sydd wedi bod yn brysur iawn yn paratoi a chreu lluniau gogyfer â'r sioe leol sef, Cwmsychpant. Edrychwn ymlaen yn fawr i'w gweld wedi eu harddangos ar y dydd. Hefyd, yn ychwanegol i'r achlysur yma mae'r plant wedi cael gwahoddiad i gymeryd rhan mewn cystadleuaeth arlunio a gynhelir gan yr Eglwys ar Awst 20fed. Pob lwc i chi blant.

Mae tri o blant blwyddyn chwech yn ein gadael am yr Ysgol Uwchradd ym mis Medi, sef, Steffan Evans, Rhys Jones a Dyfan Unsworth. Carwn fel Ysgol ddiolch iddynt am eu hymrwymiad i'r ysgol yn ystod eu cyfnod gyda ni yma yn Llanwenog. Dymunwn bob llwyddiant, hapusrwydd, iechyd a bendith iddynt yn y dyfodol. Ar ddechrau'r tymor yma croesawn tri disgybl newydd sef Hafwen Davies, Luke Thomas a Liam Day. Mawr hyderwn y byddant yn hapus yn ein plith. Hefyd estynnwn groeso cynnes i Miss Lisa Williams a fydd yn Gynorthwy-ydd amser cinio gyda Sian Jenkins ac a fydd hefyd yn gynorthwy-ydd dosbarth am gyfnod.

Eglwys Santes Gwenog.

Er gwaethaf y tywydd diflas daeth nifer dda o oedolion a phlant i'r Eglwys brynhawn Mercher Awst yr 20fed i fwynhau te a chacennau hufen, wedi'u paratoi gan wragedd yr Eglwys.

Edmygwyd yr arddangosfa wych o waith arlunio graenus, a llawysgrif daclus plant ysgolion Cwrtnewydd a Llanwenog. Cafodd y beirniaid, Sian a Meinir Jones, (Pwllybilwg) sialens wrth ddyfarnu'r goreuon ym mhob dosbarth!

Canlyniadau – Ysgol Llanwenog –(Arlunio,) Dosbarth derbyn: 1. Molly Greenfield; 2. Kanolina Kuwalek;

3. Roseana Roach. Blwyddyn 1 a 2: 1.Isobel Evans, 2. Sioned Fflur Davies; 3. Ben Lewis. Blwyddyn 3 a 4: 1. Ffion Evans; 2. Robin Giles; 3. Carys Jones. Blwyddyn 5 a 6: 1. Emma McEnery;

2. Rhys Jones; 3. Anna Evans.

Ysgol Cwrtnewydd. (Llawysgrifen).

Blwyddyn 2 a iau: 1.Cerys Pollock; 2. Owain Jones; 3. Madeline Smith. Blwyddyn 3 a 4: 1. Edward Furlong; 2. Iwan Evans; 3. Alpha Jones.

Blwyddyn 5 a 6: 1. Meinir Davies:

2. Daniel Morgans; 3. Alpha Warburton.

Creu anifail allan o lysiau (Agored hyd 12 oed) 1. Tomos Evans 2. Ben Lewis; 3. Molly Greenfield.

Yn ystod y prynhawn bu'r plant yn cymeryd rhan mewn cwis wedi'i baratoi gan Liz Tipping a Lyn Goodall. Cafwyd hwyl hefyd yn chwilio am drysor yn y sach wellt. Talwyd y diolchiadau gan y Ficer, y Parch Bill Fillery, i blant y ddwy ysgol, i'r athrawon ac i bawb a gyfranodd tuag at lwyddiant y prynhawn. Bydd y Ficer yn ymweld â'r ddwy ysgol i ddosbarthu'r gwobrwyon.

Ym mis Gorffennaf bu'r Ficer a Mrs Fillery yn Prague ar achlysur priodas eu merch Lucy â Mathew, brodor o'r Amerig. Yr oedd yn brofiad bythgofiadwy iddynt, a dymunwn iechyd ac hapusrwydd i'r pâr ifanc yn y dyfodol.

Bu David a Margaret Rees, Llys Dolau, yn dathlu eu priodas Aur mewn gwasanaeth arbennig yn yr Eglwys. Cafwyd datganiad hyfryd gan Mrs Katherine Thomas o 'Ave Maria' cyn i bawb ymgynnull yn yr Eglwys fach ar wahoddiad David a Margaret i fwynhau darn o gacen a gwydraid o wîn Champagne. Dymunwn flynyddoedd eto o iechyd ac hapusrwydd iddynt.

Gwellhad buan i Stanley Griffiths a gafodd ddamwain gas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau, a gofal piau hi wrth ddringo ysgol yn y dyfodol!

Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus yn arholiadau Lefel A a TGAU. Dymunwn longyfarch Siwan Davies, Llysderi ar ganlyniad rhagorol yn Lefel A, a phob hwyl iddi ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi.

Ar y 7fed o Fedi byddwn yn croesawu Pererindod y Ddeoniaeth i luniaeth a the yn yr Eglwys fach. Gobeithio fydd y tywydd yn ffafriol. Dymunwn yn dda i bawb sydd yn anhwylus, a gwellhad buan iddynt.

Enillwyr Clwb 100 Mis Mehefin.

£15 Jen Clive Powell; £10 Valerie Thomas, Llanllwni; £5 Ray Davies, Crug.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys Jones, Cefnrhuddlan –Uchaf ar basio ei brawf gyrru tractor yn ddiweddar. Pob hwyl oddi wrth dy deulu a'th ffrindiau.

Diolch

Dymuna Daniel (Abertegan) a Ceri ddiolch i bawb am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a ddebyniwyd ar achlysur eu priodas yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG

Taith Gerdded o fewn y Gymuned

Dydd Sadwrn, Hydref 4ydd am 1 o'r gloch

Pawb i gwrdd yn Neuadd y Pentref, Drefach

Cyfle i gwrdd â'ch Cynghorwyr Cymuned lleol a chael sgwrs wrth gerdded.

Penblwyddi Arbennig

Yn ystod yr haf dathlodd Mair Hatcher, Abernant ei phen-blwydd yn 40 oed a richard Thomas, Llechwedd yn 50 oed. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!!

Priodas Dda

Dymuniadau gorau i Daniel Davies, Abertegan ar achlysur ei briodas â Ceri yng Nghaerdydd ar ddechrau mis Gorffennaf. Dymuniadau gorau i chwi eich dau i'r dyfodol.

Cartref Newydd

Croeso cynnes i Clive, Carys, Osian a Hafwen Davies sydd wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd yn Fronheulog. Gobeithio y byddwch yn hapus ym Mhlwyf Llanwenog.

Priodas Aur

Dathlodd David a Margaret Rees, Llys Dolau, Rhuddlan eu Priodas Aur ar ddechrau mis Awst. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Ennill Gradd

Llongyfarchiadau i Steffan Davies, Bryndolau, Brynteg ar ennill gradd B.A. 2:1 mewn 'Product Design' o Goleg Caerdydd. Pob lwc i ti Steffan i'r dyfodol.

Gwellhad Buan

Gobeithio erbyn hyn fod Steffan Davies, Bryndolau, Brynteg yn well ar ôl iddo dderbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar ac hefyd i Stanley Griffiths, Blaenpant yn dilyn ei ddamwain yn ddiwedar. Gobeithio y byddwch eich dau yn well yn fuan.

Cylch Meithrin Drefach

Dydd Llun y 7fed o Orffennaf aeth tyrfa dda ohonom am drip i Fferm Folly. Cafwyd diwrnod bendigedig yng nghanol yr anifeiliaid a llu o safleoedd chwarae addas i'r plant. Hefyd cafwyd amser da yn yr hen ffair dan dô, ac yn y siop cyn cychwyn am adref.

Llongyfarchiadau a phob lwc i Mrs Caryl Rosser yn ei swydd newydd llawn amser yn Gynorthwy-wraig Dosbarth yn Ysgol Cribyn. Bydd pawb yn gweld dy eisiau yn fawr.

Pob hwyl i'r canlynol yn ei gwahanol ysgolion cynradd – Hafwen, Lois, Lucy, Lleucu, Carwyn, Guto a Luke.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

MEDI

6 Sioe Llandysul.

6 Bydd yr awdures Joanna Davies yn llofnodi copïau o'i nofel gyntaf, Ffreshars yn Siop y Smotyn Du, Llambed.

8 Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r cylch – noson yng ngofal Janet y Llywydd.

9 Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn ail-gychwyn am 1.15yh – 3.30yh yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd.

13 Ffair Ram ar gae Pentref Cwmann.

17 Oedfa Ddiolchgarwch Maesyffynnon, Llangybi am 2y.p. Disgwylir y Parch Lloyd o Landdewi Brefi i wasanaethu.

17 Cyfarfod cyntaf o gangen Merched y Wawr y Dderi yn Ysgol Y Dderi am 7:30y.h.

18 Noson Caws a Gwin – Festri Brondeifi. Elw tuag at Ymchwil Cancr.

20 Lansio Llyfr, Dadorchuddio plac ac arddangosfa luniau Canmlwyddiant yn Ysgol Llanwnnen rhwng 1y.p. a 5y.p. a'r Cinio Dathlu am 7:30y.h. yng Ngwesty'r Grannell. Gŵr Gwadd – Mr Picton Jones MBE. Tocyn £17.00. Enwau i'r ysgol mor fuan â phosib - 01570 480203.

21 Cymanfa Ganu Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7y.h. Llywydd – Dr Dai Lloyd AC.

26 Cwrdd Diolchgarwch Capel Ebenezer, Llangybi am 6:30y.h. Y Pregethwr gwâdd fydd y Parch Henri Edwards, Caerdydd.

26 – 28 Cynhelir Gŵyl Flodau Sant Cybi, Llangybi

28 Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi, Llangybi.

28 Canu Cynulleidfaol Elusennau Dyffryn Clettwr yn Neuadd Pontsian am 8y.h. Croeso cynnes i bawb.

29 Cwrdd Diolchgarwch Capel Noddfa, Llambed.

HYDREF

2 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7y.h. gyda'r Parch Eileen Davies, Llanllwni yn annerch.

3 Noson Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd dan nawdd Urdd y Benywod Capel y Bryn am 7:30y.h.

3 Cyfarfod Diolchgarwch Capel Llidiad Nenog am 7y.h. Pregethir gan y Parch Ken Williams.

5 Cyngerdd Clasurol yn Neuadd Bo Fana, Ffarmers gyda Angela Brownridge ar y piano.

6 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7:00y.h. Disgwylir y Parch Chris Bolton, Llanarth i bregethu.

7 Pwyllgor Buddiannau Llanybydder am 7y.h. yn Ysgol Llanybydder.

10 Ocsiwn Addewidion yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch am 7:30yh. Dan nawdd Pwyllgor Eisteddfod yr Urdd 2010 Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen. Rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf.

11 Cyngerdd gan Gôr Côrdydd o dan arweiniad Sioned James yn Neuadd Bo Fana, Ffarmers.

14 Cwrdd Diolchgarwch, Capel yr Erw, Cellan gyda'r Parch Gareth Morgan Jones, Pontardawe am 7y.h.

16 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.

18 Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at Bwyllgor Cerdd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

25 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint, cyfyngedig am 11yb, agored am 2.30yp. Mwy o fanylion 01558 650401.

31 Noson yng nghwmni Mererid Hopwood yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.

TACHWEDD

2 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Glannau Teifi yng Nghapel Penybont Llandysul am 6y.h. Arweinydd: Sioned James, Caerdydd.

29 Arwerthiant Blynyddol Seion, Cwrtnewydd am 3y.p.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Daeth yr hen dymor i ben drwy dalu ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Tywyswyd yr aelodau o gwmpas gan aelod o'r staff, a hynny i rannau o'r Llyfrgell na fyddent yn ei weld fel arfer. (Mae'r cyhoedd yn medru manteisio ar deithiau tebyg bob bore dydd Llun).

Pawb yn mwynhau pryd blasus wedyn ym Mwyty Pendinas yn y Llyfrgell, ac yna manteisiodd rhai ar y cyfle i weld yr Arddangosfa o Hen Wisgoedd Cymreig sydd i'w gweld yn yr Oriel.

Bydd y Tymor newydd yn cychwyn ar yr 16eg o fis Medi, 7.30 yn Hen Neuadd y Coleg. Dechreuir wrth gynnal y Cyfarfod Blynyddol, ac yna bydd Mr Andrew Morgan yn siarad am 'Hen offer Amaethyddiaeth'. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Llwyddo

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Price, Langwm, Heol y Bryn, Llanbedr Pont Steffan ar lwyddo yn ei arholiad Corn Ffrenig gradd 3. Da iawn ti!!

Diolch

Dymuna Janet, Haulfryn, 1 Maesyllan ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r cyfarchion ar y radio yn dilyn ei hurddo â'r wisg wen yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd. Roedd y profiad o gael fy anrhydeddu gan yr Archdderwydd Dic Jones yn un i'w drysori am byth. Diolch o waelod calon i bawb ar wneud yr achlysur yn un arbennig iawn.

Cymorth Cristnogol Llambed a'r Fro

Eleni eto cafwyd ymateb ardderchog i gasgliad Wythnos Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr iawn i'r gwirfoddolwyr o'r gwahanol Gapeli ac Eglwysi'r dre, a fu allan yn casglu o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos Mai 11-17.

Diolch hefyd i bentrefi Cwmann, Cellan, Llanddewi Brefi, Parcyrhos ac i unigolion am eu cyfraniadau gwerthfawr. Diolch i Eglwysi Gartheli, Ystrad, Cribyn, Capel St.Thomas am eu cyfraniadau hael hwythau. Diolch i'r ysgolion sydd mor barod i'n cynorthwyo yn ystod eu gwasanaeth Nadolig 'Carol, Cerdd a Chân' bob blwyddyn.

Mae cyfanswm y casgliad eleni sef £3, 560-08 eisioes wedi cael ei anfon i Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb ym mhob ardal o'r fro am eu parodrwydd diflino i gefnogi'r elusen deilwng yma.

Oedfa Eciwmenaidd

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan John Morgan i'r Oedfa Eciwmenaidd a gynhaliwyd yn Noddfa. Thema'r gwasanaeth oedd "Newid y Byd" a chymerwyd rhan gan aelodau Brondeifi, Noddfa, Shiloh, Soar, Yr Eglwys Gatholig, Sant Iago, Sant Pedr a Sant Tomos. Pregethwyd gan y Parchedig Jill Tomos a chafwyd ganddi neges amserol a gafaelgar. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet Evans. Diolchodd Alun Williams yn gynnes i bawb oedd wedi cymryd rhan yn yr oedfa. Cyn troi tuag adref bu pawb yn mwynhau sgwrs yn y festri ynghyd â phaned a bisgedi wedi eu paratoi gan chwiorydd Noddfa.

Brodyr Daniel a Ryan Doughty, enillwyr pencampwriaeth bowlio i barau o dan 15 oed a gynhaliwyd yng Nghlwb Bowlio Llambed yn ddiweddar, gyda Anita Williams trefnydd hyfforddi'r ardal, Elfan James cadeirydd, a Ron Thomas ysgrifennydd gemau. Noddwyd y gystadleuaeth gan G.C.Price, ei fab a'i ferched.

Ymchwil y Cancr

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yng nghartref Twynog a Hazel Davies sef Frondolau, Pentrebach i godi arian at apêl Llanbedr Pont Steffan o Ymchwil y Cancr. Roedd y tywydd yn braf a chafwyd cyfle i fwynhau cwpanaid o de neu goffi yn yr awyr agored ac i gymdeithasu. Roedd Hazel wedi paratoi amrywiaeth eang o ddanteithion blasus iawn ar ein cyfer. O ganlyniad i'r noson codwyd swm anrhydeddus o £1, 201. Enillydd y raffl sef ffon hardd yn rhoddedig gan Andrew Jones o'i waith ei hun oedd Tim Jones, Rhodfa, Glynhebog. Talodd y Parchedig Goronwy Evans, cadeirydd y pwyllgor lleol deyrnged uchel i Twynog a Hazel am eu croeso cynnes, eu caredigrwydd mawr a'u gwaith caled a diolchodd hefyd yn ddiffuant i bawb am eu cymorth gyda'r trefniadau ymlaen llaw ac ar y noson gan sicrhau elw anrhydeddus tuag at achos mor deilwng. Diolch o waelod calon i bawb am eu haelioni.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Llion Thomas, Tremallt, Rhodfa Glynhebog, am basio Gradd 6 ar y piano gyda chlôd yn ddiweddar. Cafodd Llion farciau llawn yn y theori. Hefyd, rhaid llongyfarch Tanwen Owens, 7 Victoria Terrace, am basio Step 1 gydag anrhydedd. Cafodd Tanwen farciau llawn mewn un darn. Roedd y ddau yn ymgeisio dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

Noddfa

Cynhaliwyd oedfa unedig arbennig yn Noddfa wedi ei llunio gan Janet fel rhan o benwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen. Braf oedd gweld llond y sedd fawr o bobl ifanc yn cymryd rhan ar lafar ac ar gân a phob un ohonynt yn cyflawni eu gwaith yn rhagorol. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Llinos ac yn arbennig i'r Parch Irfon Roberts, Aberteifi ein Gweinidog gwadd. Cyn iddo gyhoeddi'r Gair gydag arddeliad datganodd ei werthfawrogiad i'r ieuenctid am eu cyfraniad graenus rhyfeddol. Diolchodd y Parch Jill Tomos hefyd i'r bobol ifanc am eu gwaith clodwiw, i'r Parch Irfon Roberts am ei neges afaelgar, i Janet am ei pharatoadau trylwyr ac i bawb oedd wedi dod ynghyd. Casglwyd tuag at Glyn Nest, Cartref y Bedyddwyr, Castell Newydd Emlyn. Yr oranyddion oedd Alwena a Llinos.

Dyddiadur: Nos Lun 29 Medi – Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7 o'r gloch.

Merched y Wawr

Cynhelir cyfarfod agoriadol tymor newydd cangen Llanbedr PontSteffan a'r cylch nos Lun Medi 8fed yn festri Shiloh am 7.30 o'r gloch – noson yng ngofal Janet, y llywydd. Mae yna raglen amrywiol wedi ei pharatoi ar gyfer y flwyddyn ac estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Treialon Cŵn Defaid Llanbed a'r Cylch

Ar ddydd Sadwrn 2 Awst cynhaliwyd treialon cŵn defaid llwyddiannus ar gaeau Maestir trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Martyn Frost. Y llywydd oedd Mr. Ieuan James, Aelybryn gyda Mr. J.P. Davies, Bryncastell, Llanbed yn is-lywydd. Diolch i Martyn Frost am fenthyg y defaid ac i Mr. Ieuan James, Mr. Andrew Jones, Mr. Rhuthwyn Evans, Mr. Aneurin Davies am y cwpannau. Y beirniad oedd Mr. Gerald Lewis, Cwmcou, Gwynfe. Dyma'r canlyniadau

Dull Cenedlaethol agored. 1. M. Morgan, Tregaron, 2. S. Harden, Penfro, 3. R. Davies, Betws Bledrws, Llambed, 4. R. Millichah, Port-Talbot, 5. I. Evans, Ystrad Meurig.

Dull Cenedlaethol Nofio. 1. S. Harden, Penfro, 2. R. Millichah, Port-Talbot, 3. I. Evans, Ystrad Meurig, 4. S. Jones, Llangeithio, 5. W. Jones, Llandovery.

Dull De Cymru Agored. 1. M. Jones, Maesybont, Llanelli, 2. J. Davies, Betws Bledrws, Llambed, 3. G. Thomas, Llanon, Llanelli, 4. E. Evans, Llanio, Tregaron.

Dull De Cymru, Nofis. 1. J. Davies, Betws Bledrws, 2. G. Thomas, Llanon, Llanelli, 3. E. Evans, Llanio, 4. G. Howells, Caerfyrddin.

Eisteddfod yr Urdd 2010

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu llwyddiannus iawn yn Eglwys Shiloh, Llanbed nos Sul 6ed Gorffennaf er budd Apêl Llanbed ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Yr oedd y capel yn llawn a'r canu yn ardderchog dan arweiniad yr arweinydd a threfnydd y noson, Twynog Davies, gydag Eurwen

Janet yn sgwrsio gyda'r Dysgwyr yn y Llew Du. Os oes hanner awr gan rywun yn rhydd rhwng 11 a 12 o'r gloch ar ddydd Mawrth galwch heibio am sgwrs. Gwerthfawrogir eich cymorth yn fawr.

Llanbedr Pont Steffan

Davies yn cyfeilo'n gelfydd wrth yr organ. Yr artistiaid gwâdd oedd Côr Merched Côrisma gyda'i harweinydd Carys Lewis a'i cyfeilydd Elonwy Davies, Côr Meibion Cwmann a'r Cylch gyda'i harweinydd Elonwy Davies a'i cyfeilydd Elonwy Pugh a Merched Malog sef Siân Roberts Jones a Helen Roberts. Recordiwyd y Gymanfa gan gwmni Andante i'w darlledu yn rhan o gyfres rhaglen Caniadaeth y Cysegr ar Radio Cymru. Diolchodd Dorian Jones, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Llanbed, i'r gynulleidfa am ganu angerddol, i'r artistiaid am eu cyfraniadau gwefreiddiol, i Eurwen Davies am ei gwasanaeth clodwiw wrth yr organ, ac yn arbennig i Twynog Davies am ei arweiniad medrus ac am drefnu'r Gymanfa. Diolchwyd i Eglwys Shiloh am lwyfannu'r Gymanfa ac i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniad tuag at ei llwyddiant - codwyd y swm anrhydeddus o £830.00 tuag at Apêl Llanbed i Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Ysgol Ffynnonbedr

Bu Iolo Williams, yr arbenigwr byd natur, ar ymweliad â Llambed yn ddiweddar i agor gardd newydd yn Ysgol Ffynnonbedr.

Dadorchuddiwyd enw'r ardd, sef 'Cysgod y Plas' gan Iolo ar ddydd Gwener, 4ydd o Orffennaf – enw a ddewiswyd gan Melissa Davies, disgybl yn yr ysgol. Wedi'r dadorchuddio, aeth grŵp o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i'r ardd gyda'r arbenigwr i ddysgu am fyd natur. Dywedodd Iolo Williams mai dyma'r ardd orau iddo ei gweld erioed mewn ysgol.

Ni fyddai'r prosiect pwysig hwn yn Ffynnonbedr wedi bod yn bosib heb y cymorthdal o £9450 a dderbyniwyd gan 'Lottery Breathing Places'. Dywedodd Mr Deian Creunant, cynrychiolydd y loteri, bod y prosiect hwn yn enghraifft arbennig o gyd-wetihio rhwng yr ysgol a'r gymuned. Roedd camerâu teledu 'Wedi 7' yno'n ffilmio'r digwyddiad ar gyfer S4C.

Cynlluniwyd yr ardd, sy'n ddwy acer, gan ddisgyblion a staff yr ysgol. Mae yna dros 120 o goed brodorol yno, a nifer fawr o blanhigion gwyllt a blodau sy'n denu pryfaid, adar ac anifeiliaid bach. Mae dau bwll a lle i adar gelu, ac mae pob ardal o fewn yr ardd wedi eu henwi ar ôl Plasdy Ffynnonbedr, gan bod modd gweld adfeilion yr adeilad o'r ardd.

Dymuna'r Prifathro Mr.H.Jenkins, staff a disgyblion yr ysgol ddiolch i bawb a fu'n gymorth i greu'r ardd. Bydd 'Cysgod y Plas' yn rhoi profiadau uniongyrchol ac addysg am fyd natur i ddisgyblion y tu allan i'r stafell ddosbarth am genedlaethau i ddod.

Janet Evans, Haulfryn a dderbyniodd y wisg wen yn Eisteddfod Gendlaethol Caerdydd. Mae Janet yn ohebydd i Clonc ers blynyddoedd maith a gwerthfawrogir ei chyfranaid gwerthfawr i'r papur bro ar hyd y blynyddoedd.

Pentrebach

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Chris a Liz Mills, Ffynnon Fair ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf, mab Guto John i Bethan a'i gŵr Keith yn Rhydowen. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Hazel a Twynog Davies a'r teulu, Frondolau ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar a oedd yn byw ym Mheniel ger Caerfyrddin.

Priodas Dda

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26ain priododd Rhian Jones, Pant-têg â Hywel Lloyd, Dôlgwartheg, Aberaeron. Dymuniadau gorau i chwi i'r dyfodol ac yn eich cartref newydd yn Ffosyffin. Mae Rhian yn un o olygyddion CLONC.

Mae CLONC ar werth yn y siopau canlynol:

Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Garej LSS, Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Gwasg Gomer, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Cwmann
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Marian Jones, Rheolwraig yn Swyddfa'r Cyfreithwyr Williams & Bourne, yn Llambed yn derbyn oriawr aur fel cydnabyddiaeth am bum mlynedd ar hugain o wasanaeth. Cyflwynwyd yr oriawr iddi gan Kevin Williams a thusw o flodau gan Angharad Williams, partneriaid yn y Cwmni.

Rhai o ddisgyblion Ysgol Ffynnonbedr gyda'u hathrawon Wenna Davies a Wyn John ar bwys un o'r arddangosfeydd, a sicrhaodd fod yr ysgol yn cipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Arddio Genedlaethol i ysgolion Cymru.

Eurwen Davies, Twynog Davies a'r Parch Elwyn Jenkins ar ran Capel Shilo Llambed yn cyflwyno siec o £830, sef elw y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yno yn ddiweddar, i Apêl Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 drwy law Dorian Jones, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Llambed a Rhys Bebb Jones, Trysorydd.

Ffair Fwyd Llambed: Melvyn Thomas yn y babell goginio yn gweini pryd blasus o borc mewn seidir gyda llysiau a reis.

Ffair Fwyd Llambed: Chris Thomas, Llambed yn arddangos ei grefftau pren.

Silian

Ar brynhawn Sul hyfryd o fis Gorffennaf, bu na ddigwyddiad cyffrous ym Methel Silian. Peth amser cyn hynny daeth cais gan un o'n cyn-Weinidogion, Parchedig Alwyn Daniel, cyn Lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru a oedd yn trefnu Taith Ddirgel o Sir Benfro i'r ardal yma ac yn awyddus i gynnal Oedfa ym Methel, Silian. Daeth hyn â llawenydd mawr i ni fel Gweinidog ac aelodau ac roedd pawb yn unfrydol dros yr ymweliad. Ar gais ein cyn weinidog, gwahoddwyd aelodau Caersalem a Noddfa hefyd i ymuno yn yr oedfa.

Cyrhaeddodd y bws yn brydlon am hanner awr wedi un gyda hanner cant o aelodau cylch Carn Ingli a'i Gweinidog, Parchedig Alwyn Daniel, yn cynnwys Capeli Bethlehem Trefdraeth, Caersalem Dyfed, Jabes Cwmgwaun a Tabor Dinas. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan ein Gweinidog, Parchedig Jill Tomos, a da oedd gweld y capel yn llawn. Trosglwyddwyd yr oedfa i ofal y Parchedig Alwyn Daniel ac aeth yntau â ni i stori Meffiboseth yn cael ei fwyd bob dydd wrth fwrdd y Brenin Dafydd (2. Sam. 9. 1-13) ac aeth â ninnau i feddwl am wahanol fyrddau. Rhai byrddau fyddwn yn gwahodd ein hunain atynt, rhai y cawn ein cymell atyn nhw, a'r rhai y dylem ni agosáu atynt ond ein bod yn gyndyn y wneud. Soniodd fod rhannu bwrdd yn arwydd cryf o berthynas iach rhwng unigolion; cofiwn hefyd am y byrddau anghenus hynny yn y dyddiau hyn, ac wrth fwrdd yr oruwch ystafell lle death y disgyblion ynghyd i gyd-fwyta, daw'r holl fyrddau yn un.

Daeth oedfa hir gofiadwy i ben wrth i ni ganu'r emyn olaf gyda Mrs Margaret Rhys yn cyfeilio, a chyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Alwyn Daniel. Bu chwiorydd Bethel yn brysur yn paratoi lluniaeth i'r ymwelwyr yn y Festri ar ôl y cwrdd.

Bethel

Cynhaliwyd Oedfa'r Aelodau ym Methel ar fore Sul, 17 Awst. Braf oedd gweld cynulliad da wedi dod ynghyd. Llywddwyd yr Oedfa gan ein Ysgrifennydd, Huw Williams. Ar ôl canu'r emyn gyntaf cyflwynwyd damhegion gan Dewi, Gethin ac Aron. Bu Iwan yn gweddïo a chafwyd adroddiad beiblaidd gan Hedydd. Roedd yr Anerchiad yng ngofal Huw Williams, a braf oedd gwrando ar enghreifftiau diddorol ganddo yn cynnwys Emynau ar y Testun Ffynnonhael. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd gan Huw i nifer o bobl ifanc Bethel oedd wedi cael llywddiant arbennig mewn gwahanol feysydd yn ddiweddar. Darllenwyd yr emynau gan Eddie Thomas, Elliw, Mair Davies ac Irene Lewis a'r organyddion oedd Owen, Elliw a Hedydd. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran, a daeth oedfa hyfryd oedd wedi ei threfnu gan Nesta Harries i ben drwy gyd-adrodd y fendith.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau calonnog i Elliw Mair, Gwarffynnon ar ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y Monolog i rai 12-16 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd. Pob lwc eto i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Bleddyn Jones am ennill Tarian Coffa Sue Davies am y chwaraewr gorau o Glwb Iau Llanybydder a thlws am y chwaraewr gorau o dan 11 oed. Mae'r darian yn rhoddedig gan Aneurin, Glenys, Sam a Daniel, rhieni a meibion Sue.

Llanybydder

18 oed

Dathlodd Lowri Haf Davies, Llys Enwyn a Rhodri Evans, Windsor Cottage eu penblwyddi yn 18 oed yn ystod yr haf. Hefyd, ar ddiwedd mis Medi bydd Hedydd Wilson, Glanrhyd yn dathlu ei phenblwydd hithau yn 18 oed. Pob lwc i chwi eich tri i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Jean Davies, Hafod y Gân, Heol y Gaer a Sioned a'r teulu ar farwolaeth ei phriod, tad a thadcu annwyl sef Peter.

Gwellhad Buan

Yn ystod yr wythnosau diwethaf derbyniodd Anona Ebenezer, Cedars lawdriniaeth ar ei phen-glin. Mae'n braf eich gweld nôl wrth eich gwaith erbyn hyn.

Priodas Arian

Dathlodd Ann a Neal Wilson, Glanrhyd eu Priodas Arian ar ddiwedd mis Awst. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu.

Priodas Dda

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12fed priododd Huw Evans, Rylwyn â Annwen Rees o Lanllwni. Dymuniadau gorau i chwi i'r dyfodol.

Llongyfrachiadau

Llongyfarchiadau mawr i Shaun Ablett, West Winds, Llanybydderar ei lwyddiant yn Lefel A. Pob lwc gyda chwrs y Gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Abertawe ym mis Medi.

Cerdd:

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ganlyniadau rhagorol yn eu harholiadau dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

Gradd 1. Deloni Davies, Glas y Dorlan, Llanwnnen.-Anrhydedd .Betsan Jones, Highview, Llanllwni – Anrhydedd gyda marciau llawn.

Gradd 2. Lowri Elen Jones, Glennydd, Llanbed – Anrhydedd. Ruth Davies, Llwyncelyn – Teilyngdod. Sioned Fflur Evans, Fferm Glantren Fach – Teilyngdod.

Gradd 3. Sioned Davies, Y Cartws – Teilyngdod.

Gradd 5. Danielle Beaumont, Nant Helyg – Teilyngdod.

Piano

Gradd 2. Sioned Fflur Evans – Teilyngdod.

Gradd 3. Deloni Davies – Teilyngdod.

Diolch

Hoffai Eirig a Lowri Jones, Brynhyfryd ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion a'r dymuniadau gorau ar achlysur eu priodas ar y 9fed o Awst 2008.

Hefyd, dymuna Wil, 21 Heol-y-Gaer ddiolch o galon am y caredigrwydd ddangoswyd iddo ar ei ben-blwydd yn ddiweddar. Diolch am y llu cardiau, anrhregion, galwadau ffôn a i'r sawl a alwodd heibio. Diolch i Helen a'r teulu am bob help, i Jayne a diolch arbennig i Delyth am y gacen hyfryd. Bendith arnoch, Wil.

Dymuna Jean, Sioned a'r teulu, Hafod-y-Gân ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt mewn gair a gweithred yn ystod eu profedigaeth lem yn ddiweddar. Diolch diffuant hefyd i bawb a gyfranodd tuag at Feddygfa Llanybydder ac Uned y Galon ysbyty Glangwili er cof am Peter.

Cydymdeimlo

Ar ddiwedd mis Awst brawychwyd yr ardal pan glywyd am farwolaeth Steve Lloyd, Welwyn. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i wraig, Doris a'r bechgyn yn eu profedigaeth lem.

Brynmor a Myra Morris yn cyflwyno siec i Mrs Frances Williams o McMillan Cancer Support, arian a godwyd mewn noson lwyddiannus iawn a drefnwyd ganddynt ac a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Llanybydder ar y 14eg o Fehefin. Roedd £750 o'r arian a godwyd wedi dod o gynllun punt am bunt Banc Barclays trwy law un o'r staff sef Helen Draycott. Dymuna Brynmor a Myra ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi'r noson. O'r chwith yn y llun gwelir Helen Draycott, Brynmor, Myra, Frances Williams, Ann Jones ac Aneurin Davies.

Cellan

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Andrew Williams, Glannant-Coy yn gwella ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ystod yr haf.

Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Llŷr Thomas, Llaindeg ar ei swydd newydd gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin fel Swyddog Datblygu Chwaraeon.

Capel yr Erw

Yn ystod yr oedfa ar Sul y 5ed o Hydref am 2 o'r gloch cyflwynir tysteb arbennig i Mrs Mary Jones, Glasfryn mewn gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth fel organyddes am hanner can mlynedd. Bydd y Gwasanaeth yng ngofal Mr Lyndon Lloyd o Feulah. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw nos Fawrth y 14eg o Hydref am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch Gareth Morgan Jones, Pontardawe. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Amanda James ar ennill gradd BSc mewn Astudiaethau Iechyd Cymunedol.

Penblwydd Arbennig

Pob hwyl a phen blwydd hapus i Mrs Enid Jones, Dol Hyfryd yn 60 ac ar ei hymddeoliad. Traed lan nawr Enid!

Llongyfarchiadau i Feithrinfa Y Dyfodol ar godi dros £2, 000 tuag at Gronfa Arch Noa. Roedd hi'n bleser gweld cynifer wedi cefnogi- bach o fwrlwm yn y pentref ac adfywiad i'r hen ysgol.

Codi Arian

Cafwyd prynhawn o hwyl er gwaetha'r glaw yn y Fishers a chodwyd arian sylweddol tuag at Gronfa'r 'British Heart Foundation'.

'Sale of Work'

Bu'r 'Sale of Work' yn llwyddiant mawr i'r Eglwys gan godi arian da tuag at gronfa'r Eglwys.

Croeso

Croeso cynnes i deulu newydd Tafarndy, Cellan.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Catrin Davies, Llwynifan ar ei dyweddiad gyda John Hopkins.

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Lle aeth pawb?

Annwyl Olygydd,

Dyma fi yn danfon y llun a gefais o'r Rhondda gan fam yng nghyfraith Gethin y mab. Pan briododd Gethin bum mlynedd yn ôl ym Mhontygwaith, Rhondda gyda Kathryn daeth i'r amlwg fod teulu mam ein merch yng nghyfraith yn hanu o ardal Llambed. Roedd mam Kathryn yn cofio ei mam hithau yn son am ddod i ardal Betws Bledrws yn blentyn ar wyliau gyda'i brawd a'i chwaer ac yn credu mai ar fferm yn cynnwys yr enw "Banc" yr arhosent. Byddent yn dod ar y trên a disgyn ar "Silian Halt" lle byddai cart a cheffyl yn eu cyfarfod. Ar ôl i mi wneud ychydig o ymholiadau deallais mai cartref Aneurin Davies sef Blaenplwyf oedd cartref y teulu. Mae chwaer i fam-gu Kathryn (Anti Joan) yn dal i fyw yn y Rhondda a hi ddaeth o hyd i'r llun arbennig yma o ddisgyblion Ysgol Betws Bledrws yn 1927. Roedd hi a mam-gu Kathryn a hefyd eu brawd yn digwydd bod ar wyliau ym Mlaenplwyf pan dynnwyd y llun. Er syndod i mi pwy arall oedd yn y llun ond Wncwl Sam (Penparc).

Mam-gu Kathryn (Beryl) - ail o'r chwith rhes flaen, chwaer arall (Anti Joan) - ail o'r dde rhes flaen, brawd arall (Ieuan) - Ddim yn rhy siŵr ond y cyntaf o'r chwith ail res efallai, a Sam - y cyntaf o'r dde yn yr ail res.

Tybed a oes unrhyw un o ddarllenwyr "Clonc" yn adnabod rhai o'r disgyblion eraill?

Cofion

Ray (Capeli)

Annwyl Olygydd,

Syndod oedd dod ar draws y llun o'r dosbarth yn Clonc (Gorffennaf 08). 'Doedd y llun o'r flwyddyn honno yn y '50au ddim gennyf - felly, diolch Clonc. Yn edrych ymlaen i gael gwybod 'Lle aeth pawb.' Y fi yw'r olaf ar y pen mewn ffrog olau. Wedi cael cadair gan fod y sedd hir yn llawn!!

Yn gynnes,

Beryl Davies, Llanddewi Brefi. (Beryl Davies, 8 Treherbert, gynt.)

Agoriad Swyddogol Meithrinfa y Dyfodol, Cellan

Cynhaliodd Meithrinfa y Dyfodol ddiwrnod o agoriad swyddogol ar ddydd Sadwrn 16eg o Awst 2008 i godi arian i Apêl Arch Noa a'r Feithrinfa. Daeth tua 500 o bobl i gefnogi'r fenter. Roedd llu o weithgareddau wedi eu paratoi yn cynnwys rhostio mochyn, castell bownsio, tynnu'r gelyn, raffl, a llawer mwy.

Meithrinfa y Dyfodol yw'r unig un breifat yng Ngheredigion sydd â 170 o blant ar y gofrestr. Caiff y feithrinfa ei rheoli gan Sabrina a Dwynwen a chroesawir plant o oed geni hyd at 11 oed. Mae'r plant yn cael eu goruchwylio gan staff cymwys sy'n siarad Cymraeg. Darperir bwyd maethlon, cartref i'r plant ac mae bws mini ar gael i gasglu'r plant o ysgolion lleol.

Dymuna Sabrina a Dwynwen ddiolch i bawb a gefnogodd y diwrnod ac a helpodd i godi dros fil o bunnoedd i elusen.

Mwynhau darllen Clonc?

Beth am ddarllen y cyhoeddiadau Cymraeg eraill:

GOLWG – Cylchgrawn Cymraeg Cenedlaethol wythnosol, a gynhyrchir yn Llambed, sydd yn y siopau bob dydd Iau. Ffoniwch: 01570 423529.

Y CYMRO – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol wythnosol sydd yn y siopau bob dydd Gwener. Ffoniwch: 01766515514.

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen
Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Sarn Helen

Ar ddydd Sadwrn diwethaf mis Gorffennaf aeth wyth o aelodau y clwb i Lanberis i gymryd rhan yn Ras Yr Wyddfa. Mae'r ras yn dechrau yn Llanberis ac yn dringo 3,210 o droedfeddi i Gopa'r Wyddfa, ac yna nôl lawr i Lanberis Diwrnod twym iawn, a'r haul yn cael effaith ar rai o'r rhedwyr. Roedd 500 o redwyr.

Cafodd Dawn Kenwright ras dda gan gipio y wobr gyntaf yng nhategori Vet 50, ac hefyd Carwyn Thomas yn cael ras arbennig o dda ac yn cyrraedd copa'r Wyddfa mewn 51 munud a 10 eiliad gan ddod lawr mewn 27 munud a 39 eiliadau. Y canlyniadau, safle 24 - Carwyn Thomas 1 awr 18m a 41 e, 103– Glyn Price 1awr 33 m a 22 e, 160 – Mark Dunscombe 1awr 39m 16e, 220 – Huw Rowcliffe 1awr 44m a 44 e, 224 – Richard Marks 1awr 50m a 37 e 281 – Dawn Kenwright 1awr 50m a 37e, 296- Huw Price 1awr 52m a 3 e, 443 – Caryl Davies 2awr 17m a 21e.

Cynhaliwyd ras flynyddol y clwb yn ysgol Felin Fach. Ar ôl cwblhau'r chew milltir dyma ganlyniadau clwb Sarn Helen. 2il Andrew Abbot 33 m 29 e, Dynion 40 1af Glyn Price 33 m 12 e, Dynion 50 2il Richard Marks 37m 02 e. Menywod 35 3ydd Caroline John 42 m 46 e. Ras y plant, 3000 medr bechgyn 1af Davy Lewis Carmarthen Harriers 11 m 35 e 2il Rhys Evans 12 m 35 e , 3ydd Sion Price Ysgol Gyfun Aberaeron 12 m 50 e. 1af merched Sian Downes Ysgol Gyfun Aberaeron 13 m 31 e, 2il Rhian Jones Sarn Helen 14 m 5 e, 3ydd Bethan Haf Jones Tregaron 15 m 36 e. 1500 medr bechgyn 1af Alan Davies Sarn Helen 6 m 28 e 2il Osian Jones Felin Fach 6 m 42 e, 3ydd Ieuan Wyn Rees Llangeitho 6 m 56 e. Merched 1af Katja Birkett Sarn Helen 7 m 02 e, 2il Luned Medi Jones Cwrtnewydd 7 m 03 e, 3ydd Gwawr Edwards Felin Fach 7 m 30 e. 800 medr bechgyn1af Aled Sion Jones Bronant 3 m 24 e, 2il Jack Dafydd Richards Aberaeron 3 m 26 e, 3ydd Tomos Lewis Tregaron 3 m 29 e. Merched 1af Alaw Mair Jones Felin Fach 3 m 35 e, 2il Llio Jones Felin Fach 3 m 39 e, 3ydd Alaw Fflur Jones Felin Fach 3 m 53 e.

Carwyn Thomas yn ennill ras 10K 'Silver Valley' Hermon mewn amser 37 m a 55 e ac yn safle 27 roedd Gareth Jones 53 m a 40 e, a Caryl Davies 58 m a 32 e.

Carwyn Thomas yn ennill unwaith yn rhagor yn Ras Frenni 8 milltir yng Nghrymych mewn 44 m a 8 e, safle 20 - Haydn Lloyd 58 m 8 e, 26 - Gareth Jones 1awr 4 m 31e, 27 - David Thomas 1awr 5 m 46 e, 32 - Janet Jones 1 awr 1 m 10 e. Mark Dunsombe yn gorffen yn safle 38fed yn ras Abertawe 5K,a Glyn Price yn gorffen yn bedwerydd yn ras Amman Valley 10K ac yn cael ail i ddynion 16 -Mark Dunscombe, Huw Price, 55 - Lyn Rees, 119 - Allen Watts.

Yn ras hwyl Llangeitho cafodd y plant rasus da iawn. Lleucu Ifans yn ennill ei ras a Katia Birkett hefyd yn ennill ras blwyddyn 5 a 6. Ras ddwy filltir Rhian Jones yn ennill, ac yn ras y bechgyn Heulyn Evans yn cael ail. Ras menywod 4 milltir, 2il Janet Jones, a'r dynion Rhys Evans yn 3ydd. Caryl Davies yn ennill y ras chwech milltir , a Carwyn Thomas y cael cyntaf yn ras y dynion, 2il Haydn Lloyd dynion dros 50 Lyn Rees yn ennill y categori.

Ras trawsgwlad o Caio i Lanwrda: ail Janet Jones vet 35, 2il Haydn Lloyd dynion agored, ac ail hefyd i Gareth Jones Vet 40. Janet a Gareth yn ennill gwobr y pâr priod.

Ras y Maer 10K yn Aberteifi: Carwyn Thomas yn ennill y ras mewn 35 m 21 e, 4ydd Glyn Price 36m 29 e ac yn cael y cyntaf yn y dynion dros 40 oed.

Caryl Davies a Haydn Lloyd y ddau yn cael trydydd safle yn ras hwyl 8 filltir yn Myddfai, a Rhian Jones yn cael ail yn y ras ddwy filltir i'r plant.

Ras 10 K Rhedwyr Ingli yn Abergwaun: Glyn Price yn ennill ei ras i ddynion dros 40 oed 35m a 45e, a Michael Davies yn ennill y dynion agored 36m 32e ac Allen Watts yn cael ail i ddynion dros 70 oed 1 awr 21m a 15e. Sarn Helen enillodd y tîm sef Glyn Price, Michael Davies a Richard Marks.

Cyfres gyntaf Poppit Sands: 1af Carwyn Thomas 17m 51e, 3ydd Andrew Abbott 18 m a 57e. Dynion 40 2il Mark Dunsombe 20m 38e, Rhys Evans 2il 23m 5e, yn adran bechgyn ieuanc a Rhian Jones 12m 24e yn gyntaf yn adran y plant. Yr ail gyfres, 1af Carwyn Thomas 17 m 10e, 3ydd Andrew Abbott 17m 47e, 5ed Glyn Price 18m 08e ac yn ennill y categori dynion 40. Rhys Evans 23m 22e yn drydydd yn y bechgyn ieuanc, Caryl Davies 26m 59e yn drydydd yn y merched agored, a Rhian Jones 11m 40e yn ennill ras y plant. Y drydedd gyfres: 1af Carwyn Thomas 17 m 7e, 3ydd Andrew Abbott 18m 43e, 3ydd Bechgyn ieuanc, Rhys Evans 24m 24e. 3ydd merched agored Caryl Davies 25m 39e a Rhian Jones yn ennill ras y plant. Ar ddiwedd y noson yr enillwyr allan o'r dair gyfres oedd Carwyn Thomas, Rhys Evans a Rhian Jones.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Ffair Ram
13eg Medi 2008
Llywydd: Mrs Ann Douch, Maestroeddin Fawr, Pumsaint
Sioe, Cystadlaethau CFfI, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir a Defaid Prin, taflu welington ac atyniadau eraill.
Arddangosfa Hen Beiriannau
Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.
Ysgrifenyddion: Danny Davies 423692 ac Eiddig Jones 422655

YSGOL DDAWNS SALLY SAUNDERS
DYDD MERCHER - NEUADD CWMANN

4.00 – 4.30	*Little Movers*
4.30 – 5.15	Tapio Cynradd
5.15 – 6.00	Cyfoes Gradd 1
6.00 – 6.45	Cyfoes Gradd 3
6.45 – 7.30	Tapio Gradd 2

DYDD IAU – NEUADD CWMANN

4.00 - 4.45	Bale a Dawns Rydd iau
4.45 - 5.30	Tapio Gradd 1
5.30 - 6.15	Cyfoes Gradd 2
6.15 - 7.00	Bale a Dwans Rydd hŷn

Ffôn: 01570 434571
07817 615703
Sally Saunders AISTD
Bale, Tapio, Theatr Gyfoes a Chenedlaethol

CEGIN COEDLANNAU
Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur
- Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
- Bwffe mawr neu fach
- Danteithion i de
- Pwdinau
- Arlwyo ar gyfer pob achlysur

Cysylltwch â Sirian Davies
01570 434 243 neu
07815 962 045

Cwmann

Sefydliad y Merched Coedmor

Ar nos Lun, Gorffennaf 7fed aeth 17 o aelodau ar daith gerdded i Aberaeron gyda Mrs Marian Jones. Buom yn ffodus iawn i gael noson sych i gerdded o gwmpas gan ddechrau ger yr harbwr ac yna ar lan yr afon Aeron cyn dringo'r rhiw a dychwelyd nôl heibio'r ysgol ac i'r 'Royal Oak' lle roedd swper yn aros amdanom. Diolchodd Noeleen yn gynnes i Marian am drefnu'r noson ac i'r gwesty am baratoi'r bwyd ac enillwyd y raffl gan Tegwen. Rhoddwyd llongyfarchiadau i Dilys am ei llwyddiant mewn amryw o sioeau lleol.

Gan fod cymaint o sôn am y ffilm Mamma Mia penderfynwyd bod yn rhaid mynd i'w gweld a dyma Gwen a Gwyneth yn mynd ati i drefnu'r noson. Ar nos Wener 25ain aethom yn gyntaf i Gannets lle cawsom groeso cynnes gan Dilys, a phryd o fwyd blasus dros ben wedi ei baratoi gan Dave. Yna i fyny i Ganolfan y Celfyddydau a chael tipyn o hwyl wrth wylio'r ffilm a chanu ambell i gân. Teimlai pawb eu bod wedi cael noson bleserus iawn a diolch yn fawr i Gwen a Gwyneth am wneud y trefniadau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Gethin Morgan, Llys Penparc am ei lwyddiant ysgubol yng nghystadleuaeth beirniadu cobiau cymreig a gynhaliwyd yn yr Amwythig yn ddiweddar. Roedd Gethin yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth o dan ddeuddeg ac aeth ymlaen i ennill y bencampwriaeth o dan pump ar hugain oed allan o drideg o ymgeiswyr. Roedd Gethin yn aelod o dîm Ceredigion ynghyd â Lowri a Catrin Reed.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau priodasol i Helen, Brynview ac Euros sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhenybryn, Llanbed ac hefyd i Simon, 18 Heol Hathren a Rhian a briododd Gŵyl y Banc. Pob lwc yn eich cartref newydd yn Llandysul.

Pob lwc

Dymuniadau gorau i Llion Russell, Bryncelyn a'i gariad Beca sydd wedi ymfudo i weithio yn Seland Newydd am flwyddyn. Pob lwc iddynt.

Penblwydd Priodas Arbennig

Dathlodd Mr a Mrs. Jack Davies, 19 Heol Hathren 70 o flynyddoedd priodasol. Dymunwn pob dymuniad a iechyd am lawer blwyddyn eto.

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Alan Morgan, Haulfryn ei ben-blwydd yn 50 oed a Iestyn Russell, Bryncelyn yn 18 oed ychydig yn ôl. Gobeithio i chi gael amser da a digon o ddathlu ac mae Mr. David Tom Davies, Brynteifi wedi cael ei 95 mlwydd oed yn ystod mis Awst.

Llwyddiant Eisteddfodol

Daeth llwyddiant mawr i ran Guto Gwilym, Y Garn pan gipiodd ddau ail mewn dwy gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Da iawn ti. Llongyfarchiadau hefyd i bob unigolyn a enillodd yn Eisteddfod Llanbed gyda Mared Owen, Waunygors yn cipio y wobr gyntaf am ganu. Daliwch ati i gyd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr. Dewi Davies a'r teulu, 5 Cwrt Deri ar golli ei frawd yn ddiysmwyth ac hefyd â theulu Gelliaur. Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Nancy Griffiths, 27 Heol Hathren. Roedd wedi bod yn aelod gweithgar a ffyddlon o sefydliad y Merched Coedmor am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â Mary, Gareth a'r teulu. Hefyd â theulu Mrs. Nora Arrowsmith, Neuaddfach a fu farw ychydig amser yn ôl. Roedd wedi bod yn weithgar iawn gyda gwahanol fudiadau ar hyd y blynyddoedd.

Gwellhad Buan

Da yw deall fod Eiddig Jones, Gelliddewi wedi derbyn llawdrinieath a'i fod wedi dod adref ac yn parhau i wella.

Diolch

Dymuna Lyn a Lucy, Llanilltud Fawr ddiolch i bawb am eu rhoddion hael, cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas. Diolch o galon i bawb am feddwl amdanom. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Clwb 225 Mis Gorffennaf.

1. 77, Mr. David Morgan, Haulfryn, Cwmann, 2. 87, Mr. John James, Maesteg, Cwmann, 3. 192, Mrs. E. Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann, 4. 199, Mr. L. King, Tafarn Jem, Cwmann, 5. 91, Mr. Aled Davies, Tremle, Cwmann, 6. 223, Mr & Mrs. Templeman, Bryn Golau, Cwmann, 7. Mr. Mark Jones, 8. 157, Mrs. Wilson, Lock & Key, Cwmann, 9. 132, Mrs. Ann Lewis, Hillside, Cwmann, 10. 88, Mr. Eiddig Jones, Gelli-ddewi Uchaf, Cwmann.

Clwb 225 Mis Awst 08

1. 179, Meinir a Wyn, Hendai, Cwmann, 2. 140, Wynford Thomas, Pantygorion, Cellan, 3. 145, David Williams, Tŷ Howell, Cwmann, 4. 176, Paul Jones, Preswylfa, Cwmann, 5. 221, John Dinon, Tŷ Howell, Cwmann, 6. 210, Margaret Jones, Glanhelen, North Rd, Llambed, 7. 85, Mrs. M. Evans, Danywenallt, Llambed, 8. 24, Ceinwen Russell, Coedeiddig, Cwmann, 9. 118, Ieuan Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 10. 182, Graham Jones, Tŷ Howell, Cwmann.

Clwb 170 Mis Gorffennaf

1. Mr. Tom James, Caeralaw, Cwmann, 115, 2. Rhian Harries, Llain Delyn, Cellan, 117, 3. Mrs. Pat Jones, Glanhathren, Cwmann, 106, 4. Mrs. Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann, 45, 5. Mrs. Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 56, 6. Mrs. Gwenna Evans, Tŷ Newydd, Barley Mow, Llanbed, 14, 7. Miss Angharad Price, Presden House, Llanbed, 33, 8. Mr Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 3, 9. Miss Gwen Jones, Perrymor, Cwmann, 13, 10. Mr. Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrhos, 80.

Eglwys Sant Iago

Aeth aelodau a ffrindiau eglwys Sant Iago ar eu pererindod blynyddol ar ddydd Sul 29ain Mehefin. Ymgasglodd pawb yn fore ar safle parcio yr eglwys cyn cychwyn ar y rhan gyntaf o'r daith i Machynlleth lle mwynhaodd bawb goffi a bisgedi, yna ymlaen heibio Llyn Tegid tua'r Bala a chael peth hanes am y llyn a Mari Jones a'i Beibl. Cawsom gyfle i ymweld â'r siopau yn y Bala a chael cinio cyn mynd ymlaen tua uchafbwynt y daith – sef i ymweld â'r eglwys hynafol ym Mhennant Melangell. Erbyn hyn roedd y tywydd wedi gwella a'r haul yn gwenu a chawsom gyfle i fwynhau mwynder Maldwyn ar ei orau a gwerthfawrogi cread Duw wrth edrych ar olygfeydd godidog mynyddoedd Berwyn. Wrth deithio cawsom hanes Pennant Melangell a thraddodiad y Santes Melangell gan yr Hybard Andy John. Cyrhaeddom bentref bach Llangynnog lle yr oedd bws bach yn ein disgwyl i'n cludo trwy'r lonydd cul tua dwy filltir a hanner i'r eglwys. I'r sawl oedd yn medru cerdded ac yn teimlo'n frwdfrydig roedd yn gyfle gwych i gael bach o ymarfer corff a cherdded y ddwy filltir i'r eglwys. Roedd yn braf cyd- gerdded mewn lle mor brydferth. Ar glwyd y fynedfa i'r fynwent mae pennill pwrpasol iawn wedi ei gerfio ar lechen – 'Tuedda'n bur at weddi – dy galon

Gwylia wrth addoli, A Duw unig daioni Yma'n dda anrhydedda di.' Yn y fynwent cawsom ymweld â bedd Telynored Maldwyn. Mae'r llecyn yma yn dangnefeddus iawn ac yn fan sydd yn fangre gweddi a phererindod. Tu fewn i'r eglwys mae sgrin wedi ei cherfio yn gwahanu corff yr eglwys o'r gangell ac yn dyddio o'r bymthegfed ganrif. Ar y paladr pennaf gwelir portread o Melangell yn eistedd yng nghanol yr helwyr, cŵn ac anifeiliaid hithau'n cario ffon fugeiliol yn arwydd o'i hawdurdod fel abades. Tu cefn i'r brif allor saif y greirfa sy'n dyddio o'r ddeuddegfed ganrif. Drwy ogledd Ewrop nid oes creirfa yn y dull pensarniol Romanesg hŷn na hon, yn dal ar ei thraed. Uchafbwynt y pererindod oedd cael ymuno gyda'n

gilydd mewn gwasanaeth bendithiol iawn o'r cymrun bendigaid dan arweiniad y Parchedig Linda Mary Edwards. Roedd cyfle yna i oleuo cannwyll a gweddïau personol am anwyliaid. Cyn ymadael cawsom ymweld â'r tŷ eneil sy'n gysylltiedig â'r eglwys ac yn cynorthwyo bobl sydd yn wynebu salwch terfynol a meddyliol. Bu cymdeithasu hyfryd a chyfle i fwynhau cwpanaid o de a chacennau. Gwerthfawrogwyd y golygfeydd eto wrth deithio nôl

Cwmann

tua Llety Parc, Aberystwyth lle mwynhaodd pawb swper blasus – diweddglo pwrpasol i ddiwrnod ardderchog a saif yn y cof am amser. Diolchodd yr Hybarch Andy John i Graham a Ceinwen Evans am drefnu pererindod mor ddiddorol a bendithiol eleni eto a phopeth wedi ei baratoi yn drylwyr. Mae Graham a Ceinwen yn benigamp am drefnu taith bob blwyddyn i aelodau'r eglwys – edrychwn ymlaen yn eiddgar at y pererindod nesaf.

Gŵyl Catalydd 2008

Aeth nifer o aelodau eglwys Sant Iago i Gaerfyrddin ar ddydd Sadwrn, 5ed o Orffennaf i safle'r Sioe i ddathlu 'Gŵyl Catalydd 2008' wedi ei drefnu gan Esgobaeth Tŷ Ddewi pan ddaeth tua dwy fil o aelodau eglwysi'r esgobaeth at ei gilydd i ddathlu daioni Duw yn ein bywydau a chadarnhau ein ffydd Gristnogol. Nid oedd y tywydd yn garedig ond bu y diwrnod yn llwyddiannus a diddorol iawn gyda phob math o weithgareddau yn cynnwys pabellu Celfyddydau, Cyfryngau, Pantri'r Plant, Ysgolion, Addoliad, Adnoddau Trafod o'r ardal ieuenctid. Roedd hefyd tua deg ar hugain o stondinau yn cynnwys cynnyrch lleol o bob cwr o'r esgobaeth. Y mae ein treftadaeth yn gyfoethog ym meysydd cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd ac roedd y cyfan yn amlwg yn ystod y dydd ac yn rhoi cyfle i deuluoedd fwynhau'r cyfan. I gloi y diwrnod ymunodd pawb mewn gwasanaeth bendithiol iawn dan arweiniad y Tra Barchedig Archesgob Cymru Dr. Barry Morgan a braf roedd gweld Archddeacon Ceredigion yr Hybarch Andy John, ficer Cwmann yn cynorthwyo yn y gwasanaeth. Yn ystod y gwasanaeth cawsom ddatganiad hyfryd o'r 'Gloria' gan gôr y Catalydd a phregeth bwrpasol iawn gan yr Archesgob. Wrth ganu'r emyn olaf cariwyd baneri o'r gwahanol eglwysi o amgylch a braf oedd gweld baner

eglwys Sant Iago, Cwmann yn cael ei chario gan ein warden Graham Evans. Er gwaethaf y tywydd bu yn brofiad cofiadwy i fod yn rhan o'r cyfan ac ymuno gyda aelodau o eglwysi esgobaeth Tŷ Ddewi i gyd addoli. Diolchodd yr Archesgob i bawb am eu presenoldeb a'u cydweithrediad ac i'r swyddogion a fu yn gweithio yn ddiflino i sicrhau llwyddiant y diwrnod.

Gwasanaeth Plant Dewi

Aeth aelodau eglwys Sant Iago i'r Gadeirlan yn Nhŷ Ddewi ar ddydd Sul 13eg o Orffennaf i wasanaeth dathlu Sul Plant Dewi dan arweiniad Deon y Gadeirlan y Gwir Barchedig Wyn Evans. Roedd y gwasanaeth yn fendithiol iawn a'r naws yn y Gadeirlan fel arfer yn weddigar. Cawsom hanes Plant Dewi a'r gwaith clodwiw maent yn gwneud i gynorthwyo pobl ifanc ein teuluoedd yn eu cymunedau fel y gallant gryfhau yn ysbrydol ac yn hyderus. Yn bresennol roedd Esgob Charles Brookhart o America a'r Esgob Keith Slater o Awstralia a bu cyfle yn ystod y gwasanaeth i gael hanes gwaith yr eglwys yn eu gwledydd hwy a hynny yn ddiddorol iawn. Cawsom air gan Claire Mansel Lewis uwch seirydd Dyfed am ei chysylltiadau gyda Plant Dewi yna tystiolaeth gan ddau deulu – o'r cymorth yr oeddynt wedi derbyn oddi wrth Plant Dewi i newid eu bywydau. Hyfryd roedd cael datganiad gan ysgolion Bro Dewi a St.Aidan's. Ar ôl y gwasanaeth rhaid oedd ymweld â St. Nons yr eglwys fach hynafol uwch y llu – a mwynhau'r awyrgylch heddychlon oddi fewn a'r golygfeydd godidog tu allan ar ddiwrnod heulog braf.

Cyn troi am adref mwynhaodd pawb swper yn nhŷ bwyta'r Gaderilan.

Dyddiadur Eglwys Sant Iago

Rhagfyr 14eg – Cyngerdd Eglwys Sant Iago

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Tomos Rhys Jones, Araul, am basio Gradd 1 ar y piano gyda chlôd o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain. Cafodd Rhys farciau llawn yn y theori.

Llongyfarchiadau cynnes i Guto Gwilym, Y Garn, Cwmann ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r cylch. Enillodd Guto yr ail wobr mewn dwy gystadleuaeth sef y llefaru o'r ysgrythur a'r llefaru 16-20 oed. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol. Daeth llwyddiant hefyd i ran parti llefaru Sarn Helen dan hyfforddiant Elin. Roedd deg o bartion yn cystadlu a dyfarnwyd y merched yn gydradd drydydd. Llongyfarchiadau calonnog iddynt a phob lwc eto yn y dyfodol.

Cau'r Llythyrdy

Siom enfawr i'r trigolion oedd clywed y newyddion fod llythyrdy Cwmann yn cau ar Fedi 22ain. Bydd hwn yn golled fawr i'r ardal oherwydd roedd y llythyrdy yn ganolbwynt i'r pentref ac yn cynnig llawer o wasanaethau pwysig eraill yn enwedig i'r rhai oedd yn methu mynd i'r dref.

Fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth ffyddlon a'i chymorth mawr i bawb yn y gymuned, trefnir tysteb i Mrs. Joan Davies. Os ydych yn dymuno cyfrannu gweler y manylion islaw.

Tysteb
i
Mrs Joan Davies
Llythyrdy Cwmann
i ddiolch am ei gwasanaeth
Cyfraniadau os gwelwch yn dda
i
Mrs. Rosa Lloyd
neu
Mrs. Lena Williams,
Heol Hathren
Erbyn Medi 20fed.

Llongyfarchiadau



Agorwyd Ffair Haf a Gardd Antur Ysgol Carreghirfaen gan Geraint Lloyd, BBC Cymru ac yna cyflwynodd wobr am roi enw i'r ardd. Mari Lewis oedd yr enillydd, a'r enw a roes oedd 'Yr Ardd Hardd'.

Penblwdd Arbennig

Penblwydd Hapus i Gwyneth Morgan, Llety'r Derwen (gohebydd Clonc yng Nghwmann) a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed yn ystod y mis.

Diolch yn fawr iawn i bawb a ymaelododd â Chlwb Clonc eleni. Nifer helaeth wedi talu trwy archeb banc sydd yn lleihau gwaith y gwirfoddolwyr yn fawr. Gobeithio eto cael mwy ohonoch i dalu drwy'r banc y flwyddyn nesaf.

Llangybi

Merched y Wawr y Dderi

Fe fydd cyfarfod cyntaf y gangen ar Fedi 17eg yn Ysgol y Dderi am 7:30y.h. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd i ymuno â'r gangen. Noson a fydd yn ymwneud â rhifyn o ddiwylliant a hanes China sydd ar ein cyfer.

Maesyffynnon

Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Maesyffynnon ar brynhawn Ddydd Mercher, Medi 17eg am 2y.p. Un oedfa yn unig fydd eleni. Disgwylir y Parch Lloyd o Landdewi Brefi i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Ebenezer

Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Ebenezer ar Ddydd Gwener, Medi 26ain am 6:30y.h. Y Pregethwr gwâdd fydd y Parch Henri Edwards, Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mrs Rowena Williams a Lynne Maeslyn ddiolch i bawb am ymweld â hi gartref ar ôl y ddamwain gafodd rhai misoedd yn ôl. Hefyd am yr holl anrhegion, cardiau a galwadau ffôn. Gwerthfawrogir hyn yn fawr a diolch eto o waelod calon.

Eglwys Sant Cybi

Cynhelir Gŵyl Flodau Sant Cybi o 5y.p. dydd Gwener, Medi 26ain tan nos Sul yr 28ain o Fedi. Fe fydd yr Eglwys ar agor o 5 tan 7 yr hwyr ar ddydd Gwener ac o 2 i 7y.h. ar ddydd Sadwrn a'r Sul a diweddir gyda Cwrdd Diolchgarwch. Croeso cynnes i bawb.

Clwb Clonc

Medi 2008

£25 rhif 311:
Sara Elan Jones,
Araul, Heol Caerfyrddin,
Cwmann.
£20 rhif 39:
Mrs Rosemary Davies,
Brynteg, Heol-y-Wig,
Llambed.
£15 rhif 470:
Heledd Meleri Wilson,
Lluest, Llanfihangel-ar-Arth.
£10 rhif 466:
Eifion Williams,
Bryn-y-Wawr, Cwmann.
£10 rhif 277:
Nia Wyn Jones,
Byndolau, Cwmann.
£10 rhif 58:
Rhonwen Havard Davies,
Pantygwin, Cellan.

Gorsgoch

Diolch

Dymuna Jean Evans, Llwyn-y-gôg ddiolch o waelod calon i bawb a ddangosodd gonsyrn amdani yn dilyn ei llawdriniaeth yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth yn ddiweddar. Gwerthfawrogodd bob gair a gweithred yn fawr iawn.

Llongyfrachiadau

Llongyfarchiadau mawr i Elinor Jones, Penlon am basio arholiad piano Gradd 4 gyda theilyngdod yn ystod yr haf.

Sioe a Threialon Cŵn Defaid Gorsgoch a Chlwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog

O ganlyniad i'r tywydd gwlyb diweddar, yn anffodus bu'n rhaid gohirio sioe a threialon cŵn defaid Gorsgoch a CFfI Llanwenog eleni a oedd i fod i'w cynnal ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen ar ddydd Sadwrn, Awst 16eg. Serch hynny, cynhaliwyd noson hwylus ar y nos Sadwrn yn nhafarn Cefn Hafod pan wobrwywyd enillwyr adrannau'r gwartheg a feirniadwyd yr wythnos gynt. Beirniad y gwartheg godro oedd Mr Dyfrig Davies, Gwndwn, New Inn, Pencader a Mr Glyn Davies, Lloyd Jack, Felinfach oedd yng ngofal adrannau'r gwratheg Bîff. Cafwyd rhesymau manwl ganddynt am eu dewis o enillwyr gyda'r ddau yn canmol safon yr anifeiliaid. Dyma'r canlyniadau: Dosbarth 43 - Best Dairy cow in milk 1af Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (Waliswood Igniter Blomke 29); 2il Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (Waliswood Lorenzo Patricia 66); 3ydd Glyn Jones, Pantyrhendy, Llanarth (Pencae Igniter Anneka) Dosbarth 44 - Best Heifer in milk 1af Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (Waliswood Integrity Blomke 39); 2il Andrew Davies Abertegan, Llanybydder; 3ydd Glyn Jones, Pantyrhendy, Llanarth (Pencae Jackson Janatta); Dosbarth 45 - Best cow or heifer in calf 1af Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (Waliswood Talent Francis 23); 2il Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (Waliswood Bond Glorious 48); Dosbarth 46 - Best Heifer under 18 months old 1af Glyn Jones, Pantyrhendy, Llanarth (Pencae Champion Jessie) 2il Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (Waliswood Goldwin Francis); 3ydd Glyn Jones, Pantyrhendy, Llanarth (Pencae Champion Duchess). Aeth Pencampwriaeth y gwartheg godro i Mr Paul Williams, Clyncoch gyda Waliswood Igniter Blomke 29 a'r gil–wobr hefyd i deulu Clyncoch gyda Waliswood Lorenzo Patricia. Dosbarth 39- Best Beef Steer (under 30 months) 1af Elfyn Morgans, Glwydwern; 2il Elfyn Morgans, Glwydwern; 3ydd Arwel Jenkins, Brynrhosyn, Llanybydder. Dosbarth 40 - Best Beef Heifer (under 30 months) 1af Geraint Williams, Tynllyn, Llanwnnen; 2il Geraint Williams, Tynllyn, Llanwnnen; 3ydd Gareth Jones, Blaenwaun Ganol, Llanwnnen. Dosbarth 41 - Best Suckler cow with bull calf 1af Gareth Jones, Blaenwaun Ganol, Llanwnnen; 2il Carwyn Lewis, Gwarcoed-Einion, Capel Dewi ; Cydradd 3ydd Huw a Bronwen Evans, Glantren fach, Llanybydder ac Elfyn Morgans Glwydwern, Llanwnnen. Dosbarth 42 - Best Suckler Cow with heifer calf 1af Elfyn Morgans, Glwydwern, Llanwnnen ; 2il Carwyn Lewis, Gwarcoed-Einion, Capel Dewi; 3ydd Sianco Davies, Moelifor, Talgarreg. Aeth Pencampwriaeth yr adran Bîff ynghyd â'r gil-wobr i Mr Geraint Williams, Tynllyn, Llanwnnen gyda'i ddwy dreisiad o dan 30 mis oed.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth gan obeithio'n fawr y cawn gwell haf o ran y tywydd yn 2009 ac y gallwn groesawi pawb yn ôl i'r sioe unwaith eto.

Paul a Bessie Williams, Clyncoch yn derbyn cwpan y pencampwr o law llywydd y sioe Mr Gerwyn Williams. Bryn y wawr Gorsgoch. Hefyd yn y llun mae Mr Dyfrig Davies y beirniad.

Y beirniad, Mr Glyn Davies yn llongyfarch enillwyr adran y fuwch sugno gyda llo gwryw. 1af Gareth Jones, Blaenwaun Ganol, Llanwnnen; 2il Carwyn Lewis, Gwarcoed-Einion, Capel Dewi ; Cydradd 3ydd Huw a Bronwen Evans, Glantren fach, Llanybydder (absennol o'r llun) ac Elfyn Morgans

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.
£25.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

Dysgu rhywbeth newydd gyda Clonc

Gwnaed cais i 'Cynnal Ceredigion' am arian i hyfforddi gwirfoddolwyr Clonc.
Cynhelir dosbarthiadau defnyddio InDesign yn Llambed i ddechrau ym mis Medi.
InDesign yw'r meddalwedd a ddefnyddir i ddylunio Clonc.
Bydd dosbarthiadau i ddechreuwyr a dosbarthiadau i ddefnyddwyr presennol.
Os oes diddordeb gyda chi, cysylltwch â Dylan Lewis os gwelwch yn dda:
01570 422349 cadeirydd@clonc.co.uk

cynnal Ceredigion

Antur Teifi

CEREDIGION CAVO

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: Ffion Wyn Thomas
Oed: 25
Pentref: Alltyblaca
Gwaith: Podiatrydd
Partner: Eugene Gale
Teulu: Alan (tad), Lynwen (mam), Bryn (brawd hena), Sion (brawd lleia').

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd i Gei Newydd 'da mam-gu a thad-cu ar nosweithiau braf i gael pysgod a sglodion ar y traeth.

Hoff raglen deledu plentyndod?
Live and Kicking gyda Andy Peters a Emma Forbes ar fore Sadwrn.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Bwmpo pen yn ceisio rhedeg mewn i'r tŷ trwy ffenest bae a ddim yn sylwi bod y ffenest ar gau pan oedd pawb tu fewn yn gwylio - dim ond 8 oed oeddwn i!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I drin eraill fel hoffech chi gael eich trin.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Y casét cynta oedd albwm cynta Eternal, Always and Forever.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Eistedd tu fas yn cloncan ar ddydd braf gyda fy ffrindie a gwylio'r byd yn mynd heibio

Beth yw dy lysenw?
Ffi, Chav (peidiwch gofyn) a Foot (achos fy ngwaith).

Y peth gorau am yr ardal hon?
Y golygfeydd, tawelwch, a phawb yn 'nabod ei gilydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Ma pawb yn gwybod eich busnes personol chi, (cyn chi weithie!).

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol ag agwedd sydd ddim yn hapus heblaw bod nhw'n cwyno, a phobol sydd yn hwyr!

Unrhyw ofergoelion?
Wi'n osgoi cerdded o dan ysgol.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Gwylie i fi a fy ffrindie, rhywle twym i ddianc y tywydd gwael ni'n cael fan hyn.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Uchder - Hyd yn oed cael ofan wrth gerdded dros bont. Ma' hen adeiladau, yn enwedig eglwysi, yn codi ofn arna i 'fyd.

Unrhyw ofergoelion?
Wi'n osgoi cerdded o dan ysgol.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Does gen i ddim cyfrinach, ond mae'n bwysig bod yn gysurus ac yn hapus yn eich croen eich hunan.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Dawnsio a digon ohono fe - unrhyw le ac unrhyw bryd.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus, caredig, cyfeillgar.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
I roi eich gorau gallech chi i beth bynnag chi'n 'neud.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cael allweddi fy nhŷ - gorfod talu'r morgais am y 25 mlynedd nesa.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Seat Ibiza.

Beth yw dy hoff adeilad?
Yr Ivy Bush 'da Annwen a Bev yn enwedig pan mae'r carioci 'mlaen.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese - crispy duck yn benodol.

Beth yw dy hoff arogl?
Cyri mam yn coginio.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Adre ar y soffa 'da 'chick flick' neu gomedi ar y teledu.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Ffrindiau da.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
'Facebook' i gael busnesa, a beth ma' pawb arall yn 'neud, a ma' fe'n ffordd dda i gadw cysylltiad hefyd.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Sex and the City- dim yn ffilm i'r bois dim ond i'r merched.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
I fod mwy hyderus yn enwedig wrth gwrdd â phobol newydd.

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Hoffen i ddweud Eugene ond sain credu bydden i'n ddigon cryf i gario fe, felly bydd rhaid achub y gath.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Chwarae Playstation, yn enwedig y gemau pêl-droed, er mwyn cael cyfle i ennill yn erbyn Eugene.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Fydden ni mwy na thebyg dal eisiau gwneud rhywbeth yn y maes iechyd, neu ofalu am bobol.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Wi'n trial peidio gorwario achos wi'n ormod o 'Gardi', os oes modd cael rhywbeth yn rhatach, bydda i yna.

Y gwyliau gorau?
Sgïo yn Chamonix, Ffrainc- lot o gwympo ond lot o sbri hefyd. Roedd Las Vegas yn ffantastig i weld - does dim un man yn y byd fel y lle, popeth dros y top.

Arferion gwael?
Wi'n anniben, methu cadw ystafell wely yn lan o gwbwl.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Cael cwpaned o de a gwneud yn siŵr fod popeth yn barod am y bore.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Osian Williams, Silian

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

5		3	4		8	7		
6	4		2		3			
	7	1			9			4
3		6				4		2
			9		6			
8		9				6		5
4			7			9	6	
			1		5		4	7
		7	6		4	2		3

Atebion Swdocw Mis Gorffennaf

9	6	7	2	1	5	8	4	3
3	1	4	7	8	9	5	6	2
5	2	8	3	6	4	1	9	7
2	4	9	5	7	8	3	1	6
6	5	3	1	9	2	4	7	8
8	7	1	4	3	6	2	5	9
4	3	5	9	2	7	6	8	1
1	9	6	8	5	3	7	2	4
7	8	2	6	4	1	9	3	5

Enillydd: **Eurwyn Davies**, Heol-y-Gaer, Llanybydder. Diolch i bawb arall am gystadlu: Euronwy Doughty, Highlands, Llanybydder, Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Lynwen Davies, Glasdir, Llanybydder, Jean Griffiths, Fronddu, Cwrtnewydd, Lynda Jones, Penlon, Gorsgoch, Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder, Angharad James, Castelldu, Llanwnnen, Glenys Thomas, Llysteifi, Llanybydder, Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, Geraint Hatcher, Cefn-Hafod, Gorsgoch, Kay Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Glenys Davies, Rhydybont, Llanybydder, Dafydd Ifans, Penrhyn-coch ac Augusta Davies, Kings Mead, Llambed

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen

Gwledd arbennig o Gystadlu

Cafwyd agoriad gwych i Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan gyda chyngerdd mawreddog yng nghwmni artistiaid ifanc o fri sydd wedi profi llywddiant mawr ar lwyfannau ein Gwyliau Cenedlaethol ar hyd y blynyddoedd. Mwynhawyd datganiadau disgybledig o safon uchel iawn gan Gôr Ger y Lli o dan arweiniad medrus Gregory Roberts a Menna Girffiths yn cyfeilio. Fe'n cyfareddwyd gan lais hudolus y bachgen ifanc disglair Steffan Rhys Hughes o Langwyfan i gyfeiliant Eirian Jones. Cafwyd hwyl rhyfeddol yng nghwmni Dawnswyr Talog – llond llwyfan o bobl ifanc bywiog yn clocsio a dawnsio i gyfeiliant Eirlys Phillips a'r sbort a'r sbri yn cael eu drosglwyddo i'r gynulleidfa. Arweinydd deheuig y noson oedd Dylan Lewis a chyflawnodd ei waith mewn ffordd hwyliog a chelfydd iawn a'i hiwmor iach yn donig i ni gyd. Roedd cymeradwyaeth wresog y dorf ar ddiwedd y cyngerdd yn dweud y cyfan. Yn ystod y noson cyflwynwyd £250 yr un i bwyllgorau lleol Ymchwil y Cancr, Sefydliad Prydeinig y Galon a Chlefyd y Siwgr sef elw'r Gymanfa a gynhaliwyd y llynedd i ddathlu'r rhuddem.

Mwynhawyd gwledd o gystadlu lleol safonol yn ôl yr arfer ar y dydd Sadwrn a'r cystadleuydd mywaf llwyddiannus oedd Lowri Elen. Daeth i'r brig yn yr unawd, y llefaru a'r unawd offeryn cerdd dan 12 a hefyd derbyniodd Ddysgl hardd er cof am Mrs Ray Morgan yn rhoddedig i'r unigolyn mwyaf addawol dan 16 oed yn yr Adran Gerdd. Hefyd enillodd ddau gyntaf a dau ail ddydd Llun. Enillydd y wobr er cof am Mrs Ray Morgan yn yr Adran Agored oedd Nest Jenkins, y delynores ddawnus naw oed o Ledrod. Fore Sul cynhaliwyd oedfa unedig yn Noddfa a chafwyd cyflwyniadau clodwiw gan y bobl ifanc a neges afaelgar gan y Parch Irfon Roberts. Eleni eto roedd Llais Llwyfan Llambed yn noson ardderchog a'r safon yn uchel iawn. Arweinydd y noson oedd Rhiannon Lewis ac yn ôl ei harfer cyflawnodd ei gwaith yn urddasol ac yn broffesiynol. Enillydd y mil o bunnoedd yn rhoddedig gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen oedd y bariton Gary Griffiths o Benbre sydd newydd gwblhau tair blynedd yn y Guildhall yn Llundain. Roedd Menna Cazel Davies o Bontypridd, enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn ail ac Angharad Ress o Bontrhydyfen, enillydd Ysgoloriaeth Towyn Roberts yn y trydydd safle. Yn y pedwerydd safle roedd Justian Gringyte o Gaerdydd ond yn wreiddiol o Lithwania ac Alex Roberts o Aberystwyth yn bumed. Wrth draddodi'r feirniadaeth ar ei ran ef a'i gyd-feirniad Sian Meinir, diolchodd Gareth Rhys Davies i'r cystadleuwyr dawnus am noson arbennig, i'r athrylith Jeanette Massocchi am ei chyfraniad gwerthfawr fel cyfeilydd ac i'r Eisteddfod am gynnig gwobrau mor hael i'r cantorion ifanc. Hefyd yn ystod y noson, yn absenoldeb y beirniad Gaenor Hall, cyhoeddodd Twynog Davies, Cadeirydd y Pwyllogr Cerdd mai Mandy Williams oedd enillydd y gystadleuaeth cyfansoddi emyn don i eiriau John Roberts ar y testun "Bedydd". Cyflwynwyd datganiad hyfryd o'r emyn don gan wythawd lleol ac Eurwen Davies yn cyfeilio. Diolchodd Janet i bawb oedd wedi cyfrannu at noson arbennig iawn a thalodd deyrnged uchel i Mary Jones, Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd am ei gwaith diflino ar hyd y blynyddoedd.

Tyrrodd y cystadleuwyr o bob cwr o Gymru ar gyfer yr Adran Agored gyda Steffan Rhys Hughes yn ychwanegu 5 cyntaf at ei gyfanswm anhygoel o 13 yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol. Bu safon yr adran lenyddol yn arbennig o uchel a braf oedd clwyed fod mwy nag un mewn nifer o'r cystadlaethau yn deilwng o'u gowbrwyo. Cipiwyd y Fedal Ryddiaith gan Guto Dafydd 18 oed o Trefor ger Caernarfon sef enillydd y Tlws Ieuenctid a'r Gadair yma y llynedd. Lowri Lloyd o Gaerfyrddin oedd enillydd y Goron a pherson cyfarwydd i bawb ar y brig yng nghystadleuaeth y Gadair sef Vernon Jones, Bow Street. Llywiwyd y seremoniau gan Dorian Jones a seiniwyd y corn gwlad gan Cerith Morgan o Fwlchllan. Pleser oedd gwylio merched ysgol Cwrtnewydd yn cyflwyno dawns gyfoes oedd yn dangos ôl paratoi trylwyr er anrhydedd i'r buddugwyr. Bu'n rhiad newid ychydig o'r drefn yn seremoni cadeirio'r bardd dan 25 oed gan mai'r enillydd oedd disgybl yn ysgol Uwchradd Tregaron sef Cerith Morgan o Fwlchllan, ein trwmpedwr – diolch i John Jenkins am gymryd ei le. Hefyd roedd newidiadau i seremoni'r Tlws Ieuenctid gan fod yr enillydd Luned Mair, disgybl yn ysgol Uwchradd Llambed ar ei gwyliau. Delor James a Meinir Ebbsworth oedd yng ngofal y seremoniau ac fe'u cynorthwywyd gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llambed. Agorwyd yr Eisteddfod ar y Sadwrn gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith a dydd Llun gan y Cynghorydd Derek Wilson, Maer y dref. Llywyddion yr ŵyl oedd Eleri Twynog, Nans Davies, Alwena Williams ac Eifion Evans a diolchir iddynt am eu hareithiau hynod ddifyr a'u cyfraniadau anrhydeddus i'r coffrau.

Treuliwyd noson hywliog yn Nhalwrn y Beirdd yn ysgol Ffynnonbedr yng ngofal y Prifardd Idris Reynolds ac roedd yr arddangosfa Gelf a Chrefft yn werth ei gweld. Enillydd tlws arbennig yn yr Adran hon am yr eitem orau oedd Alice Issac, disgybl yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Gwobrwywyd Ysgol Uwchradd Llambed ac Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ar dderbyn y marciau uchaf ynghyd â Joan Jones, Rhodfa Glynhebog fel yr unigolyn mwyaf llwyddiannus. Cyflwynwyd Tarian Sialens Barhaol er cof am Sulwen Lloyd Thomas yn y gystadleuaeth darn dramatig neu fonolog yn rhoddedig gan Rob, Rhodri a Llŷr. Bu Sulwen yn hyfforddi cenedlaethau o blant i lefaru ac roedd safon anhygoel y cystadleuwyr nos Lun yn deyrnged haeddiannol iddi gyda 13 yn ymddangos yn y rhagbrawf. Un gair oedd gan y beirniad Tudur Dylan i ddisgrifio'r cyflwyniadau sef "Gwefreiddiol". Yr enillydd oedd Elen Morgan o Landysul a chyflwynwyd y wobr iddi ar ran Rob a'r bechgyn gan Jim Lloyd, brawd Sulwen. Cystadleuaeth wych arall nos Lun oedd yr adrodd digiri gyda 5 ar y llwyfan a'r gynulleidfa yn eu dyblau. "Ffantastig" oedd ymateb y beirniad Dennis Davies. Yn ôl y beirniad roedd nifer hefyd o gystadlaethau yn yr adran gerdd wedi cyrraedd tir uchel ac roedd pob un ohonynt yn canmol y gwirfoddolwyr am Eisteddfod drefnus a chroesawgar. Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith hoffwn ddiolch o waelod calon i Dorian ein hysgrifennydd cyffredinol am ei wasanaeth amrhisiadwy. Mae e'n gweithio'n dawel ac yn ddi-ffwdwn a does dim byd yn ormod o drafferth iddo. Diolch hefyd i Rhain am ei gwaith arbennig hithau fel Trysorydd yr Ŵyl. Hoffwn dalu teyrnged uchel i swyddogion y pwyllgorau i gyd am eu llafur cariad ac i bawb a fu'n cynorthwyo yn ystod y penwythnos mewn unrhyw ffordd. Yn olaf ond nid y lleiaf mae ein dyled yn fawr iawn i holl noddwyr yr Eisteddfod ac i Mr. Dylan Wyn Prifathro'r Ysgol a Geraint am bob cydweithrediad eleni eto er gwaetha'r adnewyddu sydd yn mynd mlaen yno ar hyn o bryd. I gloi Eisteddfod lwyddiannus iawn lle cafwyd mwynhad mawr yn gwrando ar ddoniau disglair y llefarwyr a'r cantorion. Barf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn yn bresennol ddydd Sadwrn o ddechrau'r cystadlu am 12 o'r gloch y prynhawn tan y diwedd am 12 o'r gloch yr hwyr. Dyfarnwyd Kees Huysmans o Dregores yn enillydd yr Her Unawd am y drydedd flwyddyn yn olynol a Joy Parry o Gorslas yn gyntaf yn y Brif Gystadleuaeth Lefaru. Wrth droi tuag adref roedd pawb yn uchel iawn eu canmoliaeth o arlwy'r penwythnos.

Janet Evans

Canlyniadau Eisteddfod Rhys Thomas James (Pantyfedwen) 2008

Unawd dan 6 oed. 1. Elan Jones, Cwmann, 2. Megan Mai Jones, Gorsgoch, 3. Naiomi Long, Cwrtnewydd. **Llefaru dan 6 oed**. 1. Naiomi Long, Cwrtnewydd, 2. Owain Jacob, Pencarreg, 3. Elan Jones, Cwmann. **Unawd 6-9 oed.** 1. Mared Owen, Cwmann, 2. Elan Evans, Felinfach, 3. Jasmine Davies, Pencarreg, 4. Mari Lewis, Cwmann, 5. Elin Davies, Cwmsychpant. **Llefaru 6-9 oed.** 1. Tomos Jones, Llambed, 2. Elin Davies, Cwmsychpant, 3. Jasmine Davies, Pencarreg. **Unawd 9-12 oed.** 1. Lowri Elen Jones Llambed. Llefaru 9-12 oed. 1. Lowri Elen Jones, Llambed. **Unawd ar unrhyyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed.** 1. Lowri Elen Jones, Llambed. **Unawd 12-16 oed.** 1. Dewi Uridge, Coed Parc, 2. Aron Dafydd, Silian, 3. Elliw Mair, Silian. **Llefaru 12-16 oed.** 1. Elliw Mair, Silian, 2. Aron Dafydd, Silian, 3. Gwawr Hatcher a Meleri Davies, Cwmsychpant. **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 16 oed.** 1. Elliw Dafydd, Silian.

Cyflwynwyd "Rose Bowl" Sialens Barhaol er cof am Mrs Ray Morgan (rhoddedig gan Gôr Brethyn Cartref) i'r cystadleuydd mwyaf addawol o dan 16 oed yn yr Adran Gerdd. Buddugol – Lowri Elen Jones.

Enillwyr lleol yn yr Adran Agored

Deuawd dan 21 oed. 2. Hedydd a Elliw, Silian, 3. Gwawr Hatcher, Gorsgoch a Meleri Davies, Cwmsychpant, 3. Lauren a Sophie Jones, Gorsgoch. **Ymgom.** 3. Guto ac Elliw. **Deuawd Emyn Agored**. 2. Hedydd ac Elliw, Silian. **Parti Llefaru dros 14 oed.** 1. Parti Sarn Helen. **Unawd allan o unrhyyw Sioe Gerdd i gyfeiliant piano neu syntheseinydd.** 2. Lowri Daniel, Llys Barcud, Cellan. **Llefaru i Gyfeiliant.** 1. Lowri Daniel, Cellan, 2. Guto Gwilym, Cwmann, 3. Elliw Mair Dafydd, Silian. **Unawd dan 8 oed.** 2. Elan Evans, Felinfach. **Unawd 10-12 oed.** 2. Lowri Elen Jones, Llambed. **Llefaru 10-12 oed**. 1. Lowri Elen Jones, Llambed. **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed.** 2. Lowri Elen Jones, Llambed. **Unawd Cerdd Dant dan 12 oed.** 1. Lowri Elen Jones, Llambed. **Llefaru 12-16 oed.** 2. Elliw Mair, Silian. **Unawd Piano 12-19 oed**. 1. Llywelyn Jones, Felinfach, 3. Tomos Harries, Llambed. **Cyflwyniad Digri Agored**. 2. Guto Gwilym, Cwmann. **Unawd Cerdd Dant 12-19 oed**. 2. Elliw Dafydd, Silian. **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd heblaw'r piano 12-19 oed**. 1. Llywelyn Jones, Felinfach. **Darn Dramatig neu Fonolog Agored**. 4. Elliw Mair, Silian. **Y Brif Gystadleuaeth Lefaru dros 21 oed.** 4. Lowri Daniel, Cellan.

Y Babell Lên

Saith Englyn i saith person gwahanol

Saith o Eisteddfodwyr
[Bu rai ohonynt hwy gyfryw ag a adawsant
enw ar eu hôl…… bu hefyd rai heb fod
coffa amdanynt ……cyfiawnder pa rai nis
anghofiwyd ….. Ecclesiasticus XLIV.

Peter Davies
(Goginan, bardd ac adroddwr)

Darfu'r gwin yng Ngoginan, - Peter bach
Petae'r byd yn hepian
Ddei-di a nwyf i lwyfan
O'r sêr megis Peter Pan?

Cefnfab
(Cwmtawe, bardd ac adroddwr])

I'r Northmon, ef yw'r Sioni – ddaw a swyn
Ddoe y Sowth fel 'roedd-hi,
A sugnodd ei lais egni
O nos y glofeydd i ni.

George Pugh
(Aberhosan, canwr)

Doi o ŵyl hwyrganu'r De – a'i wobrau
Yn ei hebrwng gartre
I waedd yr unigedde,
A'r llais fu'n enwogi'r lle.

Buddug (BJ) James Jones
(Bala / Dole, hyfforddwraig drama)

O'r Dole crwydrai deilen, - a chrino
Uwch rhinwedd ei helfen,
Fel ei thrafael a'i threfen
Hardd ei lliw ar ruddiau llên.

John Penry Jones
(Y Foel, Llangadfan, bardd)

Meudwy'r Clawdd a mydrwr clên – yr hen
lanc
Ddyrnai'r lest yn llawen
Ar drywydd traed yr awen
Fu'n ysgafnhau llwybrau llên.

Ifan (Bach) Jones
(Prengwyn, bardd – chwilotwr)

Y twrch o'i siop-pisyn-tair – yn gwynto
Tros gownter sibrydair,
"I chi mewn?" Tyrchu am air
I godi sent y gadair!

Neli Davies
(Tregaron, arloeswraig 'llefaru')

Llafuriodd faes llefaru – iachau'r had
I'w chriw i fraenaru,
O rwn lwyd daeth grawn i lu
A hyder i ailhadu.

Dolferchen
VERNON JONES,
BOW STREET.

Cyfres o Chwe Limrig yn cynnwys enwau Llefydd

Fe nogiodd fy nghar yn Llanddona
Ond jawch yr oedd pawb ar y ffôn-
'na,
Mi dreuliais y nos
Gyda geneth fach dlos
A nawr rydw i'n methu dod o-na.

Ma pâr bach o ymyl Llanelli
Yn poeni yn fawr am eu babi
Sy'n gwrthod dweud "Mam"
Dim ond gwaeddu o'r pram
Ar bawb ar y stryd – "ogi – ogi!"

Sibrydodd dyn garej Mydroilyn
"Cymerwch dau fesur o'r oil-hyn
Bydd eich car yn ddi-ôd
Pan wasgwch eich trôd
Yn mynd ac yn dod yn reit oilyn".

Fe blygai rhyw lanc yn Llangeler
Y llestri yn steil Uri Geler,
"Does dim byd amdani
Ond ei gloi mynte Annie
Heb gyllell na fforc yn y seler".

Ces gosfa ym marchnad Pwllheli
Am hocian dros botel o eli,
Pwy oedd y South paw
Yn ôl rhyw hen Go'
Ond yr Enso Macarinelli.

Wrth glirio'r tŷ'n Alltyblacca
Ces afel mewn gwn Aka – Aka,
Medd plismon yn Llambed
"Os na chei di drwydded
Mi landi di reit yn y ca-ca!".

Jocer
VERNON JONES,
BOW STREET.
****

Cywydd

Gwisg

Gen i y mae gwisg newydd
Heb os yn fy siwtio sydd.
Oferôl esgobol, gain
Ei lliwiau fel ei lliain,
Na welwyd mo'i chyffelyb –
Nes daw i'r glaw ar Awst gwlyb.

Ei leinin o satin swel
O liw cwmws blew camel
I'r ffêr, a choler i'w chau
Bob tamed, a botymau
I'w llewys llaes, a'i holl waith
Yn hyfrydwch o frodwaith.

Rameses ar y Maes wf
Yn yr Ŵyl man lle'r elwyf –
Y fireinwych ddwyfroneg
A'r hen deyrnwialen deg
A'i holl liw aur, ar fy llw'n
Ffit i'r hen Eifftiwr hwnnw.

Os y trend i ni ers tro
Yn awr yw ail-gyfeirio,
Yn offrwm, fyth na chyffrwy',
Rwy'n mynd yn Male Model mwy.

Mochyn Du
DIC JONES,
BLAEANNAERCH.

Llanfair

Gŵyl Haf a Chwrw y Pentref

Cynhaliwyd yr ail Ŵyl Haf a Chwrw ar y 26ain o Orffennaf, yn dechrau ar y nos Wener gyda noson o gemau, ac ar y dydd Sadwrn am 2 o'r gloch yng nghae Llanfair Fawr gyda llu o stondinau, gemau i'r plant ac arddangosfa o hen foduron a hen dractorau. Ymysg y digwyddiadau, daeth y frigad dân i roi arddangosfa a bu cystadlu brwd yn y tug of war. Roedd te, mefus, hufen a sgoniau

yn y neuadd a chan iddi fod yn ddiwrnod braf ynghanol y glaw, cafwyd diwrnod llwyddianus iawn. I gloi yr ŵyl cafwyd barbiciw a dawnsio. Llywydd y dydd oedd Barbara Tucker a diolch iddi am agor y ffair. Diolch i Tim ac Arwyn Evans, Llanfair Fawr am gael defnyddio'r cae ac i Linda a Laurence Quelch, Lesley a Glenys am drefnu yr ŵyl a pharatoi y cae gyda help dynion y pentref. Hefyd i'r merched a fu yn brysur yn coginio sgoniau ac yn helpu yn y gegin. Cawsom benwythnos llwyddianus unwaith eto.

Yr Arddangosfa

Edrychwn yn ôl gyda balchder ar yr ail wythnos ym mis Awst pan gynhaliwyd arddangosfa yn y neuadd i ddarlunio bywyd fel yr oedd yn ein pentref yn yr 18fed, 19eg a'r 20fed ganrif. Daeth dros 500 o bobl i bori drwy yr hen luniau, y mapiau, dillad yr oes o'r blaen, peiriannau ac offerynnau ffermio a rhyfel ac yn y blaen. Roedd y cyfan wedi eu benthyg oddi wrth drigolion y pentref a rhai oedd wedi eu geni yma ond wedi symud i ffwrdd. Roedd yn arddangosfa wych ac o safon uchel ac yn dangos y cydweithrediad agos sydd rhwng y Cymry Cymraeg a'r Saeson sydd wedi dod i gartrefi yn ein plith. Dechreuwyd y cynllun yma fisoedd yn ôl a bu gweithio brwd ymlaen, gyda llawer o amser yn cael ei dreulio yn y Llyfrgell Genedlaethol ac ar y cyfrifiadur. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd, ond yn neilltuol i Alan Leech a Laura Wood a fu yn gyfrifol am glymu y cyfan at ei gilydd ac i Laura eto am y gwaith o roi yr arddangosfa at ei gilydd. Cadwch olwg allan am y llyfr sydd i'w gyhoeddi yn y dyfodol agos.

Gwellhad Buan

Da iawn yw clywed fod Iris Quan, Blaencwm, adref o'r ysbyty ac yn well ar ôl cael triniaeth yn Glangwili. Hefyd ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Betty Lewis, Frondeifi, sydd yn yr ysbyty yn Glangwili.

Pen-blwydd Hapus

Hoffwn ddymuno penblwydd hapus iawn i Meinir Millar, Nantymedd a Jamie Herschel, Nantyfelin, sydd newydd ddathlu penblwyddi arbennig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes i Robert Entwistle, Siop Llanfair, ar ennill ei radd o Brifysgol Caerlyr. Pob dymuniad da iddo yn y dyfodol. Hefyd ein llongyfarchiadau i Eleanor Evans, Nantymedd, ar ei llwyddiant yn sioe amaethyddol Llanbed, lle enillodd y cwpan am yr arddangosiad gorau a'r cwpan am y mwyaf o bwyntiau, a chael y cwpan cadw. Yn sioe amaethyddol Tregaron enillodd y cwpan am goginio. Llwyddiant mawr eleni eto, Eleanor!

Beth sy' mlaen nesaf

Medi 28ain Trip i San Ffagan, Hydref 3ydd Bingo gyda Harold. Tachwedd 1af Noson Calan Gaeaf, Tachwedd 22ain Caws a Gwin .

Ffarmers

Cydymdemlad

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth Mr Iwan Davies, 4 Bryntwrch yn frawychus o sydyn ar yr 2ail o Orffennaf. 'Roedd yn adnabyddus yn yr ardal fel Iwan Llwyncelynmawr - lle cafodd ei fagu. Wedi gadael yr ysgol, bu'n gweithio yn Glanrwyth fel saer coed, lle y treuliodd flynyddoedd lawer. Wedi hynny, bu'n gwneud gwaith saer ac adeiladu o gwmpas y lle, ac wedi dal i weithio tan y diwedd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w frawd Dewi a'i chwaer Rhiana ynghyd a'r teulu a'r cysylltiadau oll. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ym Methel, Cwm Pedol gyda'r Parchedig Goronwy Wynne yn gwasanaethu, a rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Bethel.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dr a Mrs Jonathan Mullins, Sychnant ar enedigaeth eu mab, Deri Jacob – brawd bach i Taigh. Yn yr un modd, Gareth a Lorraine Jones, Blaenau ar enedigaeth mab – Gary – brawd bach i Jessica.

Estynnwn ein cyfarchion i Emyr Davies, Ciliau Aeron – gynt o Llwyncelynmawr – ar ennill gradd B.Sc. mewn adeiladu yn ddiweddar. Mae Emyr a'i deulu yn byw yng Nghiliau Aeron, ac mae'n gweithio i Gyngor Sir Caerfyrddin fel Arolygwr Adeiladu. Pob hwyl i ti gyda dy yrfa Emyr.

Llongyfarchiadau hefyd i Nerys Jones, Caerdydd ar raddio o Goleg Meddygaeth Caerdydd yn ddiweddar. Mae Nerys yn ferch i Wyn a Julie Jones – Wyn yn hanu o Ffarmers, a Julie o Trapp – ac yn wyres i Mrs Joan Jones, Buarth yr oen. Pob lwc i ti Nerys yn dy swydd gyntaf yn Ysbyty Glangwili. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â'r teulu yn dilyn marwolaeth tad Julie, sef Mr Gareth Thomas, yn ystod yr haf.

Mae tri o bobl ifanc yr ardal wedi eu hethol yn swyddogion Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Cothi am y flwyddyn sydd newydd gychwyn. Ian O'Connor, Buarth yr oen yw Cadeirydd y Clwb, gydag Aled Jones, Tyllwyd yn Is-gadeirydd, a Carys Thomas, Penywaun yn Drysorydd. Pob hwyl i'r tri ohonoch yn ystod y flwyddyn, ac i'r llu o rai arall o ddalgylch y Clwb sydd wedi derbyn swyddi. Llongyfarchiadau hefyd i Ian ar ennill cystadleuaeth gneifio yr adran ganol yn yr ornest flynyddol a drefnir gan y Clwb – Cneifio Cothi - ac a gynhelir ar Fferm Llandre, ac am lwyddo yng nghystadleuaeth y Ffermwyr Ifanc yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Taith Noddedig ar gefn Ceffyl (o'r Gogledd i'r De!)

Ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc, Awst 25ain, roedd taith 3 wythnos yn cychwyn o'r Gogledd i'r De, o gymuned i gymuned, gydag un cerddwr a chwe marchog yn lawnsio elusen newydd o'r enw 'Amser Justin Time' – i godi arian ag ymwybyddiaeth o gancr creulon iawn, sef cancr y pancreas. Ar Fedi'r 6ed, sef 13 diwrnod i mewn i'r daith – bydd tim marchogaeth 'Amser Justin Time' yn teithio o Dregaron i Ffarmers! Shân Cothi bydd yn arwain y criw i gae Sioe Ffarmers gyda'i ffrindiau Brychan Llyr (cyflwynydd 'Rasus Ar Garlam' S4C ag 'Against All Odds' i'r BBC); Sian Jones (gwraig Brychan); Steffan Rhodri (actor - 'Gavin and Stacey' / 'Con Passionate'); Chris Lewis (ffrind a golygydd) a Branwen Buckler (chwaer Justin).

'Roedd Justin Smith yn ddyn arbennig iawn, yn gyfarwyddwr a golygydd teledu dawnus dros ben ac yn ŵr annwyl, cariadus i Shân Cothi. 'Roedd llawer yn ei adnabod fel Pepsi Tate – y chwareuwr bas lliwgar drygionus o'r band glam roc enwog, Tigertailz, ac mae na golled mawr ar ei ôl o ganlyniad i'r clefyd creulon yma a ddifethodd ei fywyd yn 42 mlwydd oed. Mae ei weddw, y soprano Shân Cothi ynghyd a ffrindie agos, wedi sefydlu elusen newydd yn enw Justin, i godi ymwybyddiaeth o'r cancr creulon yma sef cancr y pancreas.

Bydd yr arian yn mynd at ariannu gofal a thriniaeth i gleifion sy'n dioddef o'r cancr yma yng Nghymru yn ogystal ag ariannu ymchwil arbennig yn y maes.

Os oes gennych ddiddordeb, bydd yna daith farchogaeth i gefnogi'r elusen yn cychwyn Dydd Sul Medi'r 7fed o Ffarmers i Lanymddyfri – dewch yn llu i gefnogi. Ceir manylion llawn ar y wefan – www.amserjustintime.org

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth! Shân Cothi x

Yn ogystal a'r daith uchod, ar nos Sul, y 7fed o Fedi, cynhelir Cyngerdd a Chymanfa Fodern yn Neuadd Bro Fana i godi arian tuag at elusen 'Amser Justin Time.' Mae'r Cyngerdd a'r Gymanfa yn gyfle i drigolion yr ardal i gefnogi ymdrech Shân a'i chyfeillion. Llywydd y Noson fydd Mr David Thomas, Cilgerran – cyn brifathro yn Ysgol Ffarmers pan oedd Shân yn ddisgybl yno, ac mi fydd Côr Rhiannedd Rhys, Llanymddyfri yn ymuno a ni am y gyngerdd. Bydd manylion pellach ar gael yn agosach i'r digwyddiad, a gallwch ymweld a gwefan y pentre ar www.ffarmers.org

Ysgol Carreg Hirfaen

Yn y rhifyn diwethaf o'r Lloffwr, 'roeddem yn dathlu'r ffaith fod Swyddfa Bost Ffarmers ddim yn

un o'r rhai hynny oedd i gau o dan gynllun ad-drefnu swyddfeydd post yn yr ardal yma, ac fod Ysgol Llansadwrn ddim i gau wedi'r cyfan. Ond bron cyn i'r inc sychu ar dudalennau ein papur bro, daeth y newyddion brawychus fod Ysgol Carreg Hirfaen i gau unedau Ffarmers a Llanycrwys, a throsglwyddo'r plant i gyd i Goedmor ym mis Medi. Sefydlwydd Ysgol Carreg Hirfaen fel Ysgol Ffederal yn y flwyddyn 2000, ac o'r cychwyn, mae wedi profi yn llwyddiant gyda nifer y disgyblion wedi cynyddu, a'r cynllun ffederal yma yn cael ei gyflwyno fel engraifft dda o'r ffordd i weithredu mewn ardaloedd gwledig. 'Roedd y newydd am gau y ddwy safle ar ddiwedd y tymor yma yn syndod i bawb, yn enwedig y plant a'r rhieni, gan mae'n debyg nad oedd unrhyw ymgynhori wedi bod gyda'r rhieni. Yn ogystal a hyn, oherwydd fod diffyg lle yn Coedmor, mae'n fwriad gan y Cyngor Sir roi caban 'ail-law' yn iard Coedmor er mwyn cymeryd y plant – fydd hyn, wrth gwrs, yn rhyddhau dau adeilad parhaol – Ffarmers a Llanycrwys - i'r Cyngor Sir eu gwerthu. Mae dau gaban yn Coedmor eisoes, ac os gweithredir y cynllun yma, bydd tua hanner y plant yn derbyn eu haddysg mewn cabannau dros dro!

Fel y gellir dychmygu, nid yw'r cynllun yma wedi derbyn cefnogaeth rhieni ardal Ffarmers a Ffaldybrenin, ac maent eisoes yn ymgyrchu i newid y penderfyniad. Mae'n debyg eu bod yn barod i dderbyn cau un o'r ddwy uned, a chael plant unedau Ffarmers a Ffaldybrenin ar un uned gyda'u gilydd, ond mae'r syniad o gludo'r holl blant i Goedmor yn ddyddiol yn annerbyniol iddynt. Mae nifer o gyfarfodydd wedi cymeryd lle yn barod i geisio datrys y mater gyda Phwyllgor Rhieni yn arwain yr ymgyrch i sicrhau tegwch. Cynhaliwyd cyfarfod agored yn Neuadd Bro Fana ar y 19fed o Orffennaf gyda'r Neuadd yn llawn i wrando ar nifer o siaradwyr yn cefnogi eu hymgyrch, ac 'roedd yn amlwg fod trwch poblogaeth y fro yn gefnogol i safbwynt y rhieni, ac mae'n ymddangos y gall hon fod yn frwydr hir. Cafwyd cefnogaeth gadarn cynghorwyr lleol, ac 'roedd arweinydd grwp Plaid Cymru yn y Cyngor Sir – y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths – yn barod i ddadlau ynghyd a'r aelodau lleol am ail edrych ar y cynlluniau ar gyfer Ysgol Carreg Hirfaen.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn honni ei bod yn pryderu am yr amgylchedd, ac yn dilyn polisiau gwyrdd, ond maent yn barod i dorri cylludeb Ysgol Carreg Hirfaen, ac yn sgil hynny, torri swyddi athrawon, a gwario dros £50,000 y flwyddyn ar gludo plant mewn bws o Ffarmers a Ffaldybrenin i Goedmor bob dydd. Mae'n debyg hefyd ei bod wedi neilltuo £200,000 ar gyfer darparu a gosod caban 'ail-law' yn Coedmor. Maent yn cyfiawnhau hyn wrth egluro fod yr arian yma yn dod allan o wahanol 'pot!' Yn ogystal a hyn, fydd plant dan 5 oed ddim yn cael eu cludo i'r ysgol, ac os na fydd rhieni yn medru gwneud taith o 15 milltir ddwy waith y dydd i gludo'r plant yma i Goedmor, bydd y plant yn cael eu amddifadu o'r 'cyfnod sylfaen' holl bwysig sydd yn cael eu gyflwyno yn ysgolion Cymru. Mae yna ansicrwydd hefyd ynglŷn a nifer o agweddau arall o'r trefniant mae'r Sir am ei cyflwyno, ac mae'n ymddangos fod y Sir yn anfodlon i gwrdd a thrafod y sefyllfa.

Aeth tua 70 o rieni, plant a chefnogwyr i Neuadd y Sir ar y 18fed o Orffennaf i brotestio am gynlluniau'r Sir, a phenderfynwyd gan y Cyngor llawn fod y mater i'w anfon yn ôl i'r bwrdd gweithredol i gael ystyriaeth bellach. Erbyn hyn, mae'r bwriad i gau unedau Ffarmers a Ffaldybrenin ddiwedd tymor yr haf wedi ei roi naill ochor, ac mi fydd y plant yn ail gychwyn tymor yr hydref yn yr unedau fel arfer. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r ymgyrchwyr ddwysáu eu hymgyrch.

Llanwnnen

Cafodd Picton Jones, Llambed yr anrhydedd o dywys y Dywysoges Ann o gwmpas Adran y Dofednod yn y Sioe Fawr. Cafodd lwyddiant mawr wrth gystadlu hefyd: 17 cyntaf, 10 ail a 3 trydydd yn ogystal â'r Cyw Iâr Mawr Gorau yn y Sioe.

Ysgol Llanwnnen

Ar nos Wener olaf Mehefin cynhaliwyd Cyngerdd yng Nghapel y Groes, Llanwnnen a bu holl blant yr ysgol yn perfformio yn ystod y noson honno. Diolch i Gapel y Groes am y gwahoddiad.

Ar ôl wythnosau o baratoi ac ymarferion dwys daeth y penwythnos mawr sef 'Cyngerdd y Canmlwyddiant' a gynhaliwyd yn Theatr Felinfach ar nos Wener a nos Sadwrn 4ydd a 5ed o Orffennaf. Roedd hi'n werth bod yn bresennol yn y gyngerdd oherwydd roedd POB disgybl yn yr ysgol yn cymeryd rhan. Ysgrifenwyd y sgript gan Pete Ebbsworth. Mawr yw ein diolch iddo yntau. Cafwyd cymorth hefyd gan Dwynwen Lloyd Evans, Theatr Felinfach, Catherine Young, Dawns Dyfed a Rhodri ap Hywel, Garnfach. Llywydd y penwythnos oedd Elin Jones AC. Un o gyn-ddisgyblion yr ysgol sydd wedi gwneud marc iddi ei hun. Cafwyd araith bwrapasol iawn gan Elin.

Roedd yr ail hanner yng ngofal y cyn-ddisgyblion. Diolch i rai hynny a gymerodd ran.

Ar ddiwedd rhan y plant ar y nos Sadwrn cyflwynodd Elin Jones AC mwg y dathlu i bob disgybl. Diolchodd Lynwen Jenkins, Trysorydd y pwyllgor a disgyblion blwyddyn 6 i bawb a wnaeth y gyngerdd yn llwyddiannus a rhoddwyd anrhegion i rai hefyd.

Rydym am ddiolch hefyd i Heather Price ar ran Banc Barclays am noddi £ am £ i'r noson yma.

Cofiwch nawr am y gweithgareddau sydd yn digwydd ym mis Medi sef Dadorchuddio'r plac, arddangosfa luniau a lawnsio'r llyfr rhwng 2 a 5 ar brynhawn Sadwrn, 20fed o Fedi, Cinio'r Dathlu nos Sadwrn, 20fed o Fedi am 7:30y.h. a Cymanfa'r Dathlu nos Sul, 21ain o Fedi am 7:00y.h.

Tocynnau i'r ginio £17.00 ar werth yn yr ysgol felly cysylltwch â'r ysgol 01570 480203. Ychydig iawn o docynnau sydd ar ôl erbyn hyn, felly ffoniwch yn y diwrnodau nesaf – cyntaf i'r felin felly.

Ar ddydd Mawrth, 8fed o Orffennaf bu trip blynyddol yr ysgol ac eleni aethom i leoliad hollol wahanol sef i Eisteddfod Gydwladol Llangollen. Do, codwyd yn fore ond bu'n brofiad gwerth chweil i bawb a fynychodd, ac i weld y gwahanol wisgoedd o wledydd ar draws y byd. Cafwyd cyngerdd arbennig yn y Pafiliwn yn ystod y prynhawn gyda phobl o gefndiroedd gwahanol y byd i gyd yn cymryd rhan. Bûm yn ffodus iawn o gael tywydd braf hefyd.

Ffarweliwyd gyda phump o ferched hawddgar a dymunol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol eleni sef Kate Jones, Hannah Cooper, Ffion Jones, Emma Newton-Jones a Rhian Griffiths. Dymuniadau gorau i chwi yn Ysgol Gyfun Llambed. Cofiwch ddod nôl i'n gweld.

Hoffai'r staff a'r disgyblion ddiolch i bawb am eu cymorth a'u haelionni yn ystod y flwyddyn addysgol diwethaf ac edrychwn ymlaen am flwyddyn arall lewyrchus unwaith eto.

Yn ystod yr haf bu gwaith y plant yn ymddangos yn Sioeau Llambed a Chwmsychpant ac yn Eisteddfod Llambed.

Ar ddechrau'r tymor byddwn yn croesawu 2 disgybl newydd i ddosbarth y babanod sef Guto Ebbsworth a Lucy Cooper. Mae'n siwr bydd y ddau yma wedi gwneud ei hun yn gartrefol yn fuan iawn!!

Cyfarchion Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus i Angharad Castell Du a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw o fewn y dyddiau nesaf. Mwynha'r dathlu!

Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Luned Mair, Penynant ar ennill Tlws Ieuenctid Eisteddfod Pantyfedwen Llambed.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Dr. Henneghan, Tŷ'r Meddyg a fu farw'n ddiweddar.

Cydymdeimlir hefyd â Mary a Gareth Davies, Rhos y Coed a'r teulu ar farwolaeth ei mam.

Croeso

Croeso cynnes i Steffan i aelwyd Araul a phob hapusrwydd i chi fel teulu.

Penblwydd Arbennig

Yn ystod y diwrnodau diwethaf dathlodd Mrs May Lewis, Talardd ei phenblwydd yn 80 oed. Iechyd da i chwi am flynyddoedd eto.

Alltyblaca

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Eunice Evans, gynt o Cartref, Alltyblaca a fu farw yn ystod yr haf yng Nghartref Maes-y-Felin, Drefach. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Capel Undodaidd Alltyblaca.

Dymuniadau Gorau

Pob lwc i Dr. Rhian Wilson, Brynsiriol wrth iddi ddechau yn ei swydd fel Meddyg yn Ysbyty Llantrisant.

Pencarreg

Cymorth Cristnogol

Mae Ruth Jones wedi bod yn brysur iawn yn casglu tuag at Cymorth Cristnogol. Cyfanswm y casgliad oedd £45.00. Dymuna Ruth ddiolch i bawb am bob cefnogaeth ac am gyfrannu mor hael tuag at yr achos.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Gwyndaf Thomas, Dolgwm Uchaf ar ôl iddo dorri ei goes yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

Priodas Dda

Priodas dda i Dafydd Thomas, Dolgwm Uchaf ar ei briodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r pâr ifanc.

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Gwyndaf Thomas ei ben-blwydd yn 60 oed yn ystod mis Awst. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Dathlu Canmlwyddiant

Dydd Sadwrn, 20fed Medi 2008

Te, arddangosfa a lawnsio

Llyfr y Canmlwyddiant.

Cyfle i brynu'r llyfr

Ysgol Llanwnnen 1.00 y.p.

Nos Sadwrn, 20fed Medi 2008

Cinio'r Dathlu

Gwesty'r Grannell, Llanwnnen.

Gŵr gwâdd: Mr. Picton Jones, MBE

Tocynnau ar gael o'r ysgol

01570 480203

Dydd Sul, 21ain Medi 2008

Cymanfa Ganu,

yng Nghapel y Groes, Llanwnnen

am 7:30y.h.

Llywydd: Dr Dai Lloyd,

Esgairinglis gynt, Aelod Cynulliad.

Rhaglenni ar gael o'r ysgol

01570 480 203

Platiau a mygiau'r dathlu

ar werth o'r ysgol.

Cwrtnewydd

Mabolgampau Cwrtnewydd

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn pan gynhaliwyd Mabolgampau Blynyddol Cwrtnewydd yn ystod mis Gorffennaf. Er gwaetha'r haf gwael fe gafwyd prynhawn hindda ac fe fwynhaodd y plant mas draw yn gwnued y gwahanol gystadlaethau. Llywydd y dydd oedd Huw Evans Alltgoch ac fe gafwyd ganddo araith bwrpasol a chyfraniad hael iawn tuag at y gronfa. Diolch i bawb a gyfranodd tuag at lwyddiant y diwrnod.

Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau i Huw Evans, Alltgoch ar ei lwyddiant yn y Sioe Frenhinol lle enillodd Bencampwriaeth Defaid Llanwenog. Hefyd i Paul ac Eilir Williams, Clyncoch ar eu llwyddiant hwythau gyda'u ieir.

Braf yw gweld y tri yn dod ag enw Cwrtnewydd ar y map unwaith eto.

18 oed

Dathlodd David Evenden, Gwalia ei ben-blwydd yn 18 oed ar yr 2il o Awst. Dymuniadau gorau i ti David i'r dyfodol.

Llwyddiant Ysgubol

Braf oedd clywed enw pentref Cwrtnewydd yn dod i'r amlwg yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol pan gafodd Carys Griffiths, Fronddu lwyddiant ysgubol. Cafodd 1af yn yr Unawd Cân Gelf, 2il yn yr Unawd Mezzo Soprano a 3ydd yn yr Unawd Cerdd Dant. Llongyfrachiadau gwresog i ti.

Ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i Lyn ac Eileen Rees, Tanrhos ar gael ŵyr bach newydd – Jac ac yn yr un modd llongyfarchwn Mrs Annie Mary Rees, Frondes am fod yn hen-famgu unwaith yn rhagor i Jac. Pob dymuniad da.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Siân Jenkins, Ger-y-Nant, Llanybydder merch Tydfor Jenkins, 1 Heol-y-Bryn ar gwblhau cwrs gyda'r Llynges yn ddiweddar. Cyflawnodd bythefnos o hyfforddiant sylfaenol ar HMS Raleigh gyda'r 'Royal Naval Reserve' yn HMS Tawe, Abertawe. Fel cydnabyddiaeth o hyn, bu Siân yn cymryd rhan yn y 'Passing Out Parde' ar HMS Raleigh yng Nghernyw. Gobeithia Siân ymuno â'r Llynges Frenhinol yn fuan. Mae'n amlwg fod Siân yn dilyn ôl traed ei thad a phob dymuniad da iddi yn ei gyrfa gyda'r Llynges.

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Bydd Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn ail-gychwyn ar Ddydd Mawrth, Medi 9fed 2008 rhwng 1.15yh – 3.30yh yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd. Bydd angen i bob plentyn ddod â'i hoff dedi oherwydd byddwn yn cynnal picnic arbennig yng nghwmni tedi.

Eisteddfod Pantyfedwen

Llongyfarchiadau i Naomi Long, Llys Alaw a fu'n llwyddiannus yn ennill y wobr gyntaf am adrodd dan 6 oed yn yr adran gyfyngedig ynesiteddfod Llambed. Bu hefyd yn canu ac fe ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth honno. Fe fyddwn siwr o glywed mwy am dalent Naomi eto yn y dyfodol.

Noson Barnu Gwartheg Godro

Ar nos Fawrth olaf mis Awst fe gynhaliwyd Noson o Feirniadau Gwartheg Godro o dan nawdd Sioe Llandysul ar fferm Clyncoch. Daeth nifer dda o gystadleuwyr o wahanol Glybiau Ffermwyr Ieuanc Sir Gâr a Cheredigion yno i farnu gwartheg godro y fuches 'Waliswood' drwy garedigrwydd Paul a Bessie Williams a'r teulu. Ar ddiwedd y noson dyfarnwyd Llŷr Jones o Glwb Penaprc yn enillydd o dan 18oed a Llŷr Jones o Glwb Pontsian yn enillydd o dan 26oed. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau Llŷr ac fe gafodd pawb wledd i'w fwyta cyn troi am adre.

A oes angen gofal ar eich plentyn?

Gofalwraig Plant Cofrestredig
Llun - Gwener 8:00y.b. - 5:00y.p.
Ffoniwch Jean ar 01570 434225.
Hapus i fod yn hyblyg a'r oriau.

Ar Osod
Ty Capel.
Capel y Bryn,
Cwrtnewydd
2 ystafell wely
Gwres canolog olew
Manylion pellach
drwy ffonio
01570 434270

Rhifyn mis Hydref
Yn y Siopau
Hydref 2il
Erthyglau i law erbyn
Medi 19eg
Newyddion i law erbyn
Medi 22ain

Cwmsychpant

18 oed

Yn ystod mis Gorffennaf dathlodd Ceiron Jenkins, Brynmeddyg ei ben-blwydd yn 18 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys gyda Mrs Nia Pollack a'r teulu ym Mrynmeddyg ar farwolaeth tad-cu a hen dad-cu annwyl ym mherson Mr Dan Edwards, Tyddyn Gwyn, Rhydowen.

Priodas Ruddem

Ar ddechrau mis Awst dathlodd John a Mary Jones, Penrheol eu Priodas Ruddem. Ymlaen i'r AUR yn awr!!

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Dorian a Carol Rees, Maesllwyd ar enedigaeth ei cyntaf anedig Jac. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Gwellhad Buan

Danfonwn ein cyfarchion i Mrs Ella Davies, Waun sydd wedi derbyn triniaeth yn ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Hefyd llongyfarchiadau iddi ar gael or-wyr bach newydd sef Jac, Maesllwyd – mab bach i'w wyr Dorian a'i wraig Carol.

Diolch

Dymuna John a Mary Jones, Penrheol ddiolch i bawb o bell ac agos, boed yn deulu neu ffrindiau am yr holl gyfarchion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Bu'r cyfan oll yn destun hapusrwydd a gwerthfawrogir pob gair a gweithred yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Nanna Ryder, Tyngrug-ganol ar gael swydd newydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Pob dymuniad da.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Evan Davies, Bwlch y Llyn a fu farw yn ystod mis Awst.

Eisteddfod Pantyfedwen, Llambed

Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi yn cystadlu yn yr Eisteddfod uchod adeg Gŵyl y Banc Awst.

Wal Capel y Cwm

I'r rhai hynny ohonoch sydd wedi pasio drwy Gwmsychpant yn ystod yr wythnos diwethaf fe wnaethoch siwr o fod sylwi am welliannau sydd wedi cael ei gwneud i wal ffin sydd ger yr heol fawr yng Nghapel y Cwm. Fe gafodd y wal ei dinistrio gan sawl damwain yn ddiweddar ac felly rhaid oedd ei hatgyweirio'n awr a'i gwneud yn gadarnach. I'r sawl a wnaiff ei bwrw o hyn ymlaen fe fydd tipyn o olwg ar y cerbyd!

Sioe Cwmsychpant 2008

Ar ddydd Sadwrn, Awst 9fed cynhaliwyd Sioe flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies.

Er gwaethaf y tywydd gwlyb a garw cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor eleni a chodwyd swm arbennig iawn o arian a fydd yn cael ei drosglwyddo i Ward Heulwen, Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd a'r Tîm Chwarae ar y Ward.

Ni wnaeth y tywydd amharu ryw lawer ar rediad y dydd a bu'r treialon cŵn defaid yn rhedeg drwy gydol y dydd. Roedd y cynnyrch o safon uchel a'r babell yn orlawn ac yn werth ei gweld.

Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol ar ran ein llywydd Mrs Jean Evans, Llwyn y Gog, Gorsgoch gan ei mab yng nghyfraith Paul Williams. Mawr i'w ein diolch am ei rhodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins wrth y llyw eleni.

I ddod â diwrnod bythgofiadwy gwlyb a phwdylyd i ben cafwyd cwmni Sherrie a Steel a Ffushanti. Daeth cynulleidfa niferus i wrando a mwynhau eu perfformiadau arbennig.

Rhestr o enillwyr y cwpannau:

Gwinoedd–Megan Richards, Brynderi, Aberaeron. Cyffeithiau– Mr Lloyd Edwards, Maesceio, Penrhyncoch. Coginio – Wendy Davies, Caerwenog, Penffordd.Gwaith Llaw– Eluned Davies, Bryniau, Dihewyd. Crefft – Dai Davies, Brynerw, Ciliau Aeron Ffyn– Arwyn George, Bryn, Manordeilo, Llandeilo. Ffotograffiaeth- Elin Jones, Nantyronnen, Felinfach.Arlunio Plant Bl. 2 a thano – Ela Haf Jenkins, Sarnicol, Capel Cynon. Bl. 3 a 4 – Toby Donohve, Ysgol Capel Dewi. Bl. 5 a 6 – Iwan Evans, Ysgol Capel Dewi. Adran y Plant 8 a thano – Ela Jenkins, Sarnicol, Capel Cynon 11 a thano – Sarah Davies, Tafarn Bach, Pontsian. 12 a dan 17 – Carwyn Davies, Caerwenog, Penffordd. Adran Blodau – Gwyn Williams, Blaneplwyf, Llanybydder.Celfyddyd Blodau – Gwyneth Davies, Pledrog, Talgarreg. Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn. Adran Ceffylau – Dai Evans, Clogfryn, Aberaeron. Adran Ceffylau Plant– Aled Jones, Blaenblodau, New Inn. Adran Defaid – Jones, Meinigwynion mawr, Gorsgoch. £25 – Morgans, Glwydwern, Gorsgoch. Treialon Cŵn Defaid – Cenedlaethol Agored – Gerald Lewis. Nofis Cenedlaethol – John Davies. Agored De Cymru – Burt Evans. Nofis De Cymru – Robert Putman.

Dymuna pwyllgor Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniasant i wneud sioe eleni eto yn un llwyddianus.

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Pwy oedd pwy ym Mhencarreg yn 1599?

Ychydig dros ddeng mlynedd ar ôl i Feibl William Morgan ymddangos, mae'r enw Cae Ieuan Blaen yn digwydd ym Mhencarreg. Mae cofnod o ŵr o'r enw Rhys ap Ieuan Blaen, yn dal swydd bedel yn ardal Pencarreg yn 1427-1428. Swydd dan y llywodraeth oedd hon a phrif waith y bedel oedd sicrhau bod yr ardal dan ei ofal yn cael ei llywodraethu'n heddychlon ac yn effeithiol. Y bedel fyddai'n casglu'r trethi a'r dirwyon ond ni dderbyniai dâl fel y cyfryw – talai, yn hytrach, o'i boced ei hun am y fraint o gael gwneud y gwaith. Yn gyfnewid, derbyniai'r bedel gyfran o'r dirwyon a'r taliadau a wnaed i'r llys. Yn ychwanegol at hyn derbyniai 'gymorth' blynyddol o'r ardal er mwyn ei gynnal ef a'i staff.

Mewn cyfnod cynharach o lawer, mae tystiolaeth fod Blaen yn digwydd fel enw ar berson, ond erbyn hyn, diflannodd Blaen yn llwyr fel enw personol.

Un ystyr i'r enw cyffredin 'blaen' yw tarddle afon neu nant ac mae'r ffurf yn digwydd yn yr ystyr hon mewn amryw enwau lleoedd. Mae afonydd yn tarddu ar dir uchel, a datblygodd 'blaen' a 'blaenau' i ddynodi ucheldir, o'i gymharu â thir isel ar lawr y dyffryn. Mae 'blaen' yn digwydd yn gyffredin yn Ne Cymru o flaen enw afon. Dyma rai enghreifftiau lleol: Blaencothi, Blaengorlech, Blaenhathren, Blaenaeron, Blaenpadernyn (Llanybydder), Blaen-pib (Llanfihangel-ar-arth), Blaenceiment (Pencarreg), Blaengwthan (Llangeler), Tarddle neu ucheldir yw'r ystyr yn yr holl enghreifftiau hyn.

O 'blaenau' y daw'r cyfenw Blainey. Cysylltir yr enw hwnnw yn bennaf, yn y 15fed ganrif o leiaf, â chylch daearyddol reit gyfyng yn Sir Drefaldwyn, sef ardal Gregynog. Erbyn hyn mae'r cyfenw Blainey, neu amrywiad arno, yn gyffredin ar draws ardal llawer ehangach na'r hen Sir Drefaldwyn.

Mae enghreifftiau yn digwydd, yn ogystal, lle y mae'n ymddangos bod 'blaen' yn dynodi cartref gwreiddiol person. Dyna a gawn yn Ieuan Blaen y cymeriad sy'n cael ei gofféu mewn enw cae ym Mhencarreg. Mae 'blaenau' – yr enw lluosog - yn dynodi ucheldir: Blaenau, Blaenau Gwenog, Blaenau Caeo, Blaenau Fforest (Llan-y-crwys), Blaenau Cellan.

Rydym wedi tindroi cryn dipyn o gwmpas Pencarreg a broydd cyfagos y tro hwn ond heb dystiolaeth fwy penodol, awgrym peryglus ar y naw fyddai ceisio cysylltu Rhys ap Ieuan Blaen yn uniongyrchol â'r cae ym mhlwyf Pencarreg. Ond gellir dweud yn ddiogel bod yr enw Ieuan Blaen a geir yn enw ar gae penodol ym Mhencarreg yn adlewyrchu dull cynnar o ddynodi enw person â'i wreiddiau ar yr ucheldir.

Enw arall sy'n digwydd ym Mhencarreg yn yr un cyfnod yw Blaen Wyrion Einion. Mae cofnod am sawl gŵr o'r enw Einion yn digwydd yn y cofnodion cynnar sy'n gysylltiedig â Phencarreg. Un o blith nifer yw Rhys ap Philip ap Einion, bedel yr ardal yn 1383-86. Gan fod sawl gŵr, mae sawl posibilrwydd yn codi a'r cyfle i ganfod y gwirionedd yn fwy dyrys fyth.

Ai Rhys ap Philip ap Einion yw un o'r wyrion y cyfeirir ato yn Blaen Wyrion Einion? Unwaith eto, ni allwn ond dyfalu ac ymbalfalu a phenderfynu ar ddim yn gwbl bendant yn enwedig o gofio bod 'wyrion' yn gallu dynodi disgynyddion. Ond pwy bynnag oedd Einion gallwn ddeud yn hyderus ei fod ef eto â'i wreiddiau ar yr ucheldir.

Mae cofnod am gymeriad arall o Bencarreg o'r enw Rhys Dafydd ap Eignon yn byw yn Felinfach, Pencarreg - eto yn 1599. Er i'r enwau Cae Ieuan Blaen a Blaen Wyrion Einion ddiflannu'n llwyr erbyn hyn, mae lleoliad Felinfach yn ddigon hysbys. Ac eithrio'i enw ac enw ei gartref, mae'n anffodus bod pob manylyn arall am Rhys Dafydd ap Eignon o Felinfach wedi hen ddiflannu.

GLYN PHILLIPS
Saer Coed ac Asiedydd

Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING
Y gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer bob achlysur:
Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd; Cinio Busnes; Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach
Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎01570 481230 📱 07967 559683

O Siambr Cyngor Sir Gâr

gan Pryfyn

Dros fisoedd yr haf poethi wnaeth y ddadl am ddyfodol addysg yng ngogledd Sir Gâr. Gwrthododd Jane Hutt AC, y gweinidog addysg, gefnogi cynlluniau Cyngor Sir Caerfyrddin i gau ysgol Llansadwrn. Cyfeiriodd y gweinidog at wendidau sylfaenol yng nghynlluniau'r Cyngor Sir. Gwrthod cydnabod y feirniadaeth wnaeth swyddogion y Cyngor yn y wasg a cheisio, ar ben hynny, fychanu llywodraethwyr a rhieni Llansadwrn.

Cyhoeddodd Jane Hutt hefyd y byddai canllawiau newydd yn trafod ysgolion gwledig yn ymddangos yn y man. Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf galwodd Peter Hughes-Griffiths, arweinydd Plaid Cymru, ar i'r Cyngor bwyllo yn wyneb y beirniadu a'r canllawiau newydd. Fe'i cefnogwyd gan ein haelodau lleol Eirwyn Williams, Fiona Hughes a Linda Evans. Gwrthod pob beirniadaeth a phob dadl i bwyllo wnaeth Ieuan Goronwy Jones (Annibynnol, Llandeilio) yr aelod â gofal dros addysg ar y bwrdd gweithredol.

Tynged Ysgol Ffederal Carreg Hirfaen sydd flaenaf yn ein meddwl ni, yn naturiol. Aethpwyd â'r brotest i Neuadd y Sir gan y llywodraethwyr a'r rhieni ym mis Gorffennaf. Cafwyd cefnogaeth yr aelodau lleol: anwybyddwyd cais rhesymol i bwyllo. Pam Ieuan bach, pam? Pam, ddyn bach, pam?

Galw am bwyll wrth ystyried datblygiadau pellach ar gyfer Fferm Wynt Fforest Brechfa a wnaeth Linda Evans gerbron cyfarfod llawn o'r Cyngor. Y difrod i'r economi ac i'r amgylchedd yn lleol oedd sylfaen dadleuon Linda. Anwybyddu'r farn leol a wnaeth y Cyngor a mynnu brysio yn eu blaenau. A dadlennwyd wedyn bod National Grid am godi byddin o beilonau ar draws canolbarth Cymru i gario'r trydan 'gwyrdd' i dde ddwyrain Lloegr.

Anodd deall pam y mae cynghorwyr a etholwyd i wasanaethu trethdalwyr, yn mygu trafodaeth go iawn yn y Siambr ar bynciau sy'n effeithio'n sylfaenol arnom ni yn y byd go iawn. Pam Meryl fach, pam? Pam, ddynes fach, pam?

O San Steffan

gan Mark Williams AS

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur arall gyda meddygfeydd yn Aberystwyth, Llanon, Llambed, Aberteifi, Borth, Tregaron, Aberporth a Ffostrasol. Dyma gig a gwaed gwaith etholaethol AS, ac maent yn rhyngwyneb critigol rhyngddo i fel eich Aelod Seneddol a chi fel un o'r trigolion lleol. Thema gyffredin sydd wedi ymddangos yn gyson yn ddiweddar yw pris cynyddol tanwydd domestig a phetrol wrth y pwmp. Nid wyf yn amau'r dimensiwn rhyngwladol i bris cynyddol olew ond y ffaith yw, mewn ardaloedd gwledig, lle'r ydym yn talu mwy, mae angen i'r cwmnïau olew anrhydeddu eu dyletswyddau tariff cymdeithasol i ddefnyddwyr domestig yn llawn. Dylid defnyddio system lleihad yn unol â'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o Ewrop, mewn ardaloedd fel ein rhai ni er mwyn lleddfu'r baich i'r halwyr, i'r rhai hynny yn yr economi wledig, ac ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ddigonol.

Dadleuwyd mater ynni yng nghyfarfod diwethaf yr Uwch-Bwyllgor Cymreig yn San Steffan, a llwyddais siarad yn fyr am yr ymchwil rhagorol y mae IBERS (IGER gynt) yn ymgymryd ag ef ynglŷn â biodanwyddau. Mewn sesiwn yn gynharach y diwrnod hynny, codais fater Swyddfa Dreth Aberystwyth gyda'r Gweinidog a'r anghysondeb mawr o golli swyddi tra medrus sector trwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac ar yr un pryd ennill swyddi Cynulliad Cymru. Nid yw hwn yn esiampl dda iawn o lywodraethu cyd-gysylltiedig.

Mae penwythnos gartref yn dal yn brysur. Yn anffodus, collais Rali'r Ffermwyr ifainc eleni, ond byddaf yn ôl yno y flwyddyn nesaf gobeithio. Mi wnes i fwynhau Sioe Amaethyddol Aberystwyth a'r Cylch yn fawr iawn, ac yr wyf yn llongyfarch y trefnwyr un waith eto ar lwyfannu'r fath ddigwyddiad rhagorol. Hoffwn hefyd longyfarch Cymdeithas Ceffylau Gwedd Gorllewin Cymru am eu digwyddiad ger Llanybydder. Mae ymweliadau brenhinol â Cheredigion i Horeb gan Ddug Caeredin a Thywysog Cymru i fferm teulu Holden yn Llwyn-Y-Groes i agor eu cyfleustra cynhyrchu caws (caws ardderchog arall o Geredigion) wedi tanlinellu'r achos dros fwyd a gynhyrchir yn lleol. Mae blaengarwch ardderchog Mynyddoedd Cambria dan gadeiryddiaeth Tywysog Cymru sydd â'r bwriad o hyrwyddo Mynyddoedd Cambria o ran twristiaeth hamdden a bwyd yn gyfle go iawn o ddatblygu'r meysydd allweddol hyn mewn modd sy'n gynhaliol yn lleol. Yr oeddwn wrth fy modd wrth fynychu agoriad gorsaf yr RNLI yn y Borth a gweld gwobrwyon yn cael eu cyflwyno i Elizabeth Evans a Gill Parry am eu gwasanaeth hirdymor i'r elusen. Bellach mae gan Borth gyfleustra ardderchog ac fe'm hatgoffir am gymaint o waith amhrisiadwy y mae'r RNLI yn ymgymryd ag ef ar hyd arfordir Bae Ceredigion. Daethpwyd â phwysigrwydd yr arfordir hynny adref i mi a fy nheulu mewn modd ymarferol pan welsom 6 dolffin trwynbwl tra roeddem ar daith mewn cwch o Gei Newydd i Gwm Tydu.

Yn Galw Gwirfoddolwyr

A hoffech dreulio ychydig amser yng nghwmni rhywun sydd â salwch sy'n cwtogi ar ei bywyd? Os hoffech fod o fudd mawr trwy gynnig seibaint am ychydig oraiu i'r sawl sydd yn gofalu am y person hynny yna hoffwn siarad â chi. Mae angen gwirfoddolwyr ar Ffagl Gobaith i ymuno â'r Gwasanaeth Eistedd sydd yn ehangu yn gyflym. Dwed gofalwyr fod y gwsanaeth hwn yn gymorth mawr i wneud bywyd yn haws o dan amgylchiadau sydd yn aml yn anodd. Elusen wedi'i lleoli yng Ngheredigion i bobl Ceredigion yw Ffagl Gobaith ac mae'r Gwasanaeth Eistedd yn un o'r ffyrdd y mae'r elusen yn cynnig cymorth i unigolion sydd â salwch difrifol - a'u teuluoedd. Darperir hyfforddiant cychwynol a chyson a chefnogaeth i bob un o'm gwirfoddolwyr.

Rydym yn awyddus iawn i glywed wrth wirfoddolwyr sydd yn byw yn ardaloedd Cei Newydd, Aberaeron a chanol Ceredigion. Croesewir gwirfoddolwyr o ardaloedd eraill hefyd o fewn neu ar gyrion Ceredigion. Os oes gennych ddiddordeb yna ffoniwch Gwynneth ar 01239 614989.

LAS Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar 01570 421421
Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

Llanllwni

Cylch Meithrin.

Llongyfarchiadau mawr i blant y Cylch Meithrin am wneud mor dda yn y mabolgampau yn Drefach Felindre. Daeth Gwion Evans yn ail, Hannah Thomas yn drydydd, Iestyn Davies yn drydydd a Ffion Harries yn bumed, Pob hwyl i Gwion sydd yn ein gadael ac yn mynd i'r caban at Mrs Jones.

Capel Nonni

Dymuna y Gweinidog a'r aelodau ddiolch i Mr Derrek Davies Gelli Hir, Llanelli (gynt o Manorafon) am ei rodd o gawg grisial wedi cael ei wneud yn yr Iwerddon er cof am ei deulu, sef teulu Hughes Cwmceredig. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd.

Darlledu

Braf oedd gweld un o ferched yr ardal sef Elin Jones, Ty Newydd, Maesycrugiau a fu'n darlledu yn ddyddiol ar raglan O'r Sioe a oedd yn ymwneud â'r Ffermwyr Ifanc. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Graddio

Llongyfarchiadau i Nia, Rhoswen ar ennill gradd 2:1 mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar yng Ngholeg y Drindod. Pob hwyl iddi yn y dyfodol.

Pen-blwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Gwyneth [Llysfaen] Lewis, Awel y Mynydd a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed ar y 10fed o Fedi. Dymuniadau gorau i ti.

Cyngor Bro

Cyfarfod ar nos Fawrth, Gorffennaf 15fed. Yn bresennol oedd Eirug Thomas (Cadeirydd), Emyr Evans, Dewi Thomas, David Thorne, Tommy J Davies, Eric Davies

Ymddiheuriadau: T E Bowen a Emrys Evans

Ar ran yr heddlu: Rhydian Jones

Eglurodd nad oedd wedi gallu mynychu y cyfarfodydd ar nos Fawrth am ei fod wedi dilyn cwrs yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Golau ger yr ysgol - Ar ôl ymweliad gan Swyddog o Gyngor Sir, Caerfyrddin a Rhydian Jones ar ran yr Heddlu, penderfynwyd fynd ymlaen i archebu yr arwyddion – un yn rhedeg ar drydan ac un arall ar 'Solar'. Y cam cyntaf fydd cael y gost yn gywir ac hefyd cyfraniad y cyngor Sir – bydd y gweddill yn disgyn ar y Cyngor Bro.

Wiced Gât – i fod ar y 7fed.

Tŷ Hers – gofyn i Steve ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod gwerthu. Gofyn i Alun Williams am bris.

Angen symud y pridd o sgwâr Pentop.

Clerc newydd: Cais oddi wrth Eirlys Davies, Cwmderi, Llanllwni. Derbyniwyd y cais yn unfrydol.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Eric Davies, Neunant ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 65 oed yn ddiweddar.

Henoed Llanllwni

Aeth dros 50 o henoed a'u ffrindiau ar y trip blynyddol ar y 12fed o Awst i Gaerfaddon. Yr oedd gweld y ddinas hynafol hon yn agoriad llygad i lawer ohonynt ac fe gafwyd pryd arbennig o fwyd ar y ffordd yn ôl yn Mountain Gate Inn ger Rhydaman. Diolchwyd i bawb gan y Cadeirydd – Sally Davies, Maes.

Croeso adref

Pleser mawr yw cael croesawu adref Nancy Evans, Llanerch ar ôl cyfnod sylweddol yn Ysbyty Glangwili. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Priodas Dda

Annwen, unig ferch Geraint a Eiddwen, Maesycelyn a Huw, mab ieuengaf William a Mali Evans, Rylwyn, Llanybydder wedi eu priodas yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12fed.

C.Ff.I. Llanllwni

Dathlu 65 mlynedd

Nos Fawrth, 29ain o Orffennaf – It's a Knockout a Rhostio Mochyn

Cafodd y gystadleuaeth It's a Knockout ei gynnal ar gaeau Glanafon. Fe gymerodd 8 tîm rhan yn y gystadlaeuaeth a'r tîm buddugol oedd Tîm Rhian Bellamy, Llanwenog

Nos Fercher, 30ain o Orffennaf – Helfa Drysor

Dechreuodd yr Helfa Drysor yn neuadd yr Eglwys, Mesycrugiau ac yna gorffen yn y Railway ym Maesycrugiau. Cymerodd 17 car rhan ac yn fuddugol oedd Teulu Blaenblodau.

Nos Wener, 1af Awst – Cinio Clwb

Y Flwyddyn yma daeth llawer o bobl i Westy Hanner Ffordd, Nantgaredig i Ginio Blynyddol y Clwb. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Evans, Frongelli. Ein Siaradwr gwadd oedd Miss Gillian Carpenter, Cadeirydd y sir. Anrhydeddwyd Rhian Davies fel aelod y flwyddyn.

Nos Sul, 3ydd Awst – Cymanfa Fodern

Cafodd y Gymanfa Fodern ei gynnal yng Nghapel Nonni, Llanllwni. Arweinydd y noson oedd Mr Richard Lloyd, Brynhebog, Llanllwni. Yn cyfeilio oedd Geraint Ress a'r band gyda Mrs Elowny Davies, Llanybydder yn llywyddu'r noson.

Diolch i bawb a wnaeth gefnogi a helpu mewn unrhyw ffordd i wneud y dathliadau yn rhai llwyddiannus.

Aelodau Clwb Ffermwyr Ieuainc Llanllwni yn dathlu penblwydd y clwb yn 65 oed mewn cinio yn Nhafarn Hanner Ffordd, Nantcaredig yn ddiweddar.

Disgyblion a staff Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni a fu'n gweithio ar prosiect 'Teulu a Chymuned' ar gyfer cystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig gan ennill y drydedd wobr o £1,000. cyflwynwyd y wobr iddynt yn yn y Seremoni Gwobrwyo yn Theatr Taliesin, Prif Ysgol Abertawe.

Yn dilyn 'Diwrnod Hwyl' llwyddiannus yn Ysgol Llanllwni a oedd wedi ei drefnu gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a'r Ysgol Feithrin gwnaed elw o £3.668.96. A'r dydd o'r blaen rhannwyd y swm rhwng tri achos - o'r chwith Cyflwynodd Ruth Evans, Ysgrifennydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon siec i Nans Davies, Pennaeth, ar ran yr Ysgol; Bethan Thomas a Llinos Harries, swyddogion yr Ysgol Feithrin siec i Janet Jones, Arweinydd Ysgol Feithrin; Marlene Evans Cadeirydd Pwyllgor Rhieni ac Athrawon siec i Julie Davies a'i merch Jasmine ar ran Ysbyty Birmingham, Ward URO Dynamics. Roedd y cyfanswm yn cynnwys £500 gan Fanc Lloyds TSB drwy law Llyr Davies a oedd yn absennol o'r llun.

Yn y Cegin gyda Gareth

Wedi derbyn llond basged o bŷs oddi wrth ffrind yn ddiweddar, a jiw! roeddent yn bŷs mawr braf. Dywedais wrthi y byddai'n rhaid iddi fynd amdani yn y sioe y flwyddyn nesaf !!. Dyma fwrw ati i dynnu'r pŷs o'r plisgyn, - a cheisio creu ryseitiau yn fy meddwl yr un pryd.

Hyfryd oedd bod yn rhan o'r Ffeiriau Bwyd dros yr haf; - daeth aml i rysait o 'Cegin Clonc' yn ddefnyddiol iawn ! Mae'r pentwr plisgyn pŷs yn dal i dyfu.

Mwynhewch y prydiau pŷs,

Gareth

Pasta gyda Bacwn a Phŷs

Cynhwysion

250g Pasta (mewn siapiau)
100g Pŷs
6 tafell o gig mochyn wedi'u darnio
Olew'r olewydd
70ml. Hufen dwbwl
75g Caws 'Brie' wedi'i dorri'n ddarnau
Pupur a halen

Dull

1. Berwch y pasta, gan ychwanegu'r pŷs am y 2 funud olaf o'r amser coginio.
2 Tra bod y pasta'n berwi, ffriwch y cig mochyn mewn ychydig olew, nes ei fod yn grimp. Ychwanegwch y 'Brie', yr hufen, halen a phupur, a'u coginio nes bod y caws wedi toddi.
3 Hidlwch y pasta, gan gadw 2 llond llwy fwrdd o'r dŵr. Rhowch y pasta nôl yn y sosban; ychwanegwch y saws, ac yna'i rannu i ddisglau.

Cawl Pŷs

Cynhwysion

1 llond llwy fwrdd olew
1 winwnsyn bach
400 ml stoc llysiau
275g pŷs
4 llond llwy fwrdd caws 'Mascarpone'
Ychydig basil neu mintys wedi'i dorri'n fân.
Halen a phupur

Dull

1 Twymwch yr olew mewn sosban, a meddalwch y winwnsyn am tua 5 munud. Ychwanegwch y stoc, a chyn gynted a'i fod yn berwi, ychwanegwch y pŷs, a'u berwi am 3 munud.
2 Ychwanegwch y caws Mascarpone, y perlysiau, halen a phupur.
3 Rhowch mewn prosesydd bwyd, a'i redeg nes bod y cawl yn llyfn. Gweinwch gyda bara.

Stwnsh Pŷs a Ffa

Mae hwn yn flasus i'w weini gyda chig oen a saws mintys ffres o'r ardd.

Cynhwysion

200g stoc llysiau
250g pŷs
2 dun x 400g 'Chickpeas'
1 llond llwy fwrdd o sudd lemwn.
1 llond llwy de o 'Paprika'
pupur a halen

Dull

1 Berwch y dŵr mewn sosban; ychwanegwch y pŷs a'u berwi am 2 funud Ychwanegwch y 'chickpeas' a'u coginio nes eu bod wedi twymo'n drwyadl.
2 Tynnwch y sosban o'r gwres, ac ychwanegwch y sudd lemwn, y paprika, halen a phupur.
3 Defnyddiwch stwnshwr tatws yn ysgafn i greu'r stwnsh. Gweinwch gyda chig oen.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

MIS Y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Pan fydd bach yn brydferth ...

Mi fydd hi'n ddiwrnod mawr yn Llanwnnen ar yr ugeinfed o Fedi – dyna pryd y bydd yr ysgol yn dathlu ei chanmlwyddiant ... neu, o leia', adeilad yr ysgol.

Mi fydd y dathliadau yno'n wahanol iawn i'r rhai a gafwyd adeg yr Eisteddfod Genedlaethol, pan oedd un o ysgolion uwchradd Caerdydd yn dathlu ei 30.

Yn fanno, roedd yna anferth o sbloet a chyngerdd anferth ym Mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol a sylw mawr i'r holl ddisgyblion a oedd wedi llwyddo ym myd y cyfryngau.

Meddwl yr oeddwn i am yr holl ddisgyblion 'cyffredin' oedd wedi mynd trwy'r ysgol, ac wedi gorffen yn gwneud pethau llawer mwy defnyddiol na bod â'u hwynebau ar sgrîn ... yn lanhawyr, yn seiri, yn nyrsys ...

Ac, o gofio mai hon oedd yr ysgol uwchradd Gymraeg gynta' ym mhrifddinas Cymru, beth am y disgyblion oedd wedi llwyddo i feistroli'r iaith ac yn dal i'w siarad, enwog neu beidio?

Mae'n ddigon gwir fod gan yr ysgol le i frolio, efo rhai fel Matthew Rhys a Ioan Gruffudd, ymhlith y rhai a fu trwy'r pyrth ond roedd yna rywbeth dros ben llestri mewn disgwyl i Gymru gyfan ddathlu llwyddiant un ysgol.

Fydd y dathlu ddim llai, dw i'n siŵr, yn Llanwnnen, ond mi fydd yn wahanol iawn. Wrth gwrs, mae'r hwyl wedi dechrau eisoes gyda'r sioe yn Theatr Felin-fach yn denu cannoedd.

Bob parch i'r cyn-ddisgyblion ond, yn achos Ysgol Llanwnnen, y sêr oedd plant heddiw. Llond llwyfan ohonyn nhw yn cynnal sioe efo sglein yn dilyn yr hanes o'r diwrnod hwnnw yn 1908 pan agorwyd yr adeilad pert ar y rhiw am y tro cyntaf'.

Yn achos Llanwnnen, roedd y plant i gyd ar y llwyfan a phob un yn cael rhan. Dyna un o ogoniannau ysgol fach yn y wlad; mae pawb yn gorfod cymysgu a phawb yn cael cyfle hefyd.

Mae'n bosib i ysgolion fod yn rhy fach – ac mi fydd rhaid i rai o ysgolion ein hardal ni wynebu'r cwestiwn hwnnw yn y dyfodol agos – ond, o fewn rheswm, mae gan ysgol fach gryfderau hefyd.

Mae yna enwogion wedi bod yn Ysgol Llanwnnen hefyd – dau Aelod Cynulliad, ac un Gweinidog Llywodraeth yn eu plith – ond, ar adegau fel hyn, un o'r plant fyddan nhwthau. Elin Tynllyn yw'r Gweinidog, waeth beth fo'i swydd.

Ac mae'n rhyfedd fel y mae hanes ysgol yn gallu adrodd hanes ardal gyfan. Ymhell cyn codi'r adeilad – y gynta' i'w chodi gan Gyngor Sir Aberteifi – roedd yna rai'n ceisio codi ysgolion.

Dyna arwydd o fel yr oedd cymdeithas yn dechrau newid a gweinidogion, yn aml, oedd y tu cefn i'r ysgolion – ffordd iddyn nhw ennill cyflog a ffordd o gynyddu dealltwriaeth eu cynulleidfaoedd.

Yn ddiweddarach, fe ddaeth Deddf Addysg 1870 a threfn fwy ffurfiol; roedd Ysgol Llanwnnen yn amlwg yn ddigon da i beidio â gorfod newid gormod ond, hyd yn oed yn y dyddiau hynny, roedd y prifathro, Dewi Hefin, yn cwyno fod gormod o ymyrraeth o'r canol a gormod o osod cwricwlwm.

Yn Llanwnnen hefyd, roedd yr ysgol yn amlwg yng ngofal arweinwyr da – fe gafodd y bwrdd barhau fel yr oedd am flynyddoedd, gyda rhai fel teulu'r Neuadd yn amlwg yn deg a goleuedig.

Ar hyd y ganrif wedyn, mae arwyddion clir fod addysg yn mynd yn fwy a mwy ffurfiol ... ar y dechrau roedd plant yn colli ysgol yn gyson oherwydd pethau fel ffeiriau neu godi tato ond, o dipyn i beth, roedd mwy a mwy o osod safonau a rheolau ar ysgolion ym mhob man.

Mi fydd hi'n anodd i ysgolion bach ym mhob man – unwaith eto, mi fydd eu hanes yn dangos y newidiadau yn ein cymdeithas ... fel y mae pawb yn teithio i bob man i wneud pob peth a natur y boblogaeth wedi newid fel bod llai o blant a llawer mwy o grynhoi mewn trefi.

Ond, efallai fod eisiau gosod ambell reol newydd hefyd – i sicrhau nad ydi ysgolion ddim yn mynd mor fawr fel bod rhai plant yn cael eu hanghofio.

Colofn yr Urdd

urdd.org

Digwyddiadau i godi arian i 2010

Hydref 1	Sioe Ffasiynau gan Cameo yn Theatr Felinfach. Elw tuag at Apêl Plwyf Troedyraur.
Hydref 10	Ocsiwn Addewidion a fydd yn cael ei gynnal yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch am 7:30y.h.. Elw tuag at Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen.
Hydref 18	Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at Bwyllgor Cerdd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl Blant,

Sut ydych chi i gyd? Gobeithio eich bod chi gyd yn go lew ac wedi mwynhau gwyliau'r haf. Wel, mae'r hen Lincyn Loncyn bach wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn helpu fy nghefnder, Joni Jacôs (crwban arall) i symud tŷ. Lwcus fy mod i'n hen law gyda'r brws a'r paent.

Braf gweld bod sawl un ohonoch wedi mentro'r mis hwn eto. Mae clod arbennig i Miriam Butcher o Gaerdydd, Catrin Jones o Lanwnnen, Laura Gaskell o Ffosyffin a holl ddisgyblion dawnus Ysgol Llanwenog.

Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Jac Evans o Ysgol Llanwenog. Llongyfarchiadau mawr i bawb a chofiwch fynd ati i liwio'r llun y mis hwn a'i ddanfon ataf erbyn dydd Gwener, 19eg o Fedi.



Enw:

Cyfeiriad:

Enillydd y mis!

Jac Evans

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS
OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur
Teithio
Cyfrifoldeb
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Fferm a busnes
Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Sioe Frenhinol Cymru a'r rhai lleol yn ystod yr haf

Berwyn Hughes, Cwmhendryd, Llambed yn dangos yr heffer a enillodd iddo bencampwriaeth yr Adran Wartheg.

Gareth Evans, Parcyrhos, Blaencwrt a gafodd Bencampwriaeth Defaid Llanwenog yn Sioe Llambed.

Bryn a Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd yn dangos un o'r gwartheg Holstein a gafodd lwyddiant yn Sioe Llambed.

Llywydd y Sioe, Mr Andrew Jones a Mrs Jones yn cyflwyno Cwpan Pencampwr yr Adran Geffylau i Lowri Reed, Tyngwndwn Stud, Cross Inn.

Dannie a Martha Davies, Llain Gors, Gorsgoch, Llywyddion Sioe a Threialon Cŵn Defaid Llanllwni.

Cyflwynwyd Gwobr y Stondin orau yn y Sioe i W D Lewis a'i feibion.

Y Dywysoges Ann a Trebor Edwards, llywydd y Sioe Frenhinol yn ymweld â'r Adran ddefaid. Yn y llun gwelir Ernest Lewis, beirniad Defaid Llanwenog, Huw Evans (chwith) perchennog y defaid ynghyd â Steffan Davies, ei gynorthwydd.

Mrs Jean Evans, Llywydd Sioe Cwmsychpant 2008 gyda enillwyr y gwahanol adrannau.

Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen

Unawd dan 6 (cyf) 1. Sara Elan Jones, 2. Megan Mai Jones, 3. Naomi Fflur Long, 4. Nia Jones, **Llefaru dan 6 oed** (cyf) 1. Naomi Fflur Long, 2. Owain Jacob, 3. Sara Elan Jones.

Unawd 6 – 9 oed (cyf) 1 Mared Owen, 2. Ella Evans, 3. Jasmine Davies, 4. Mari Lewis, 5. Elin Davies **Llefaru** 1. Tomos Lyn Jones, 2. Elin Davies, 3. Jasmine Davies

Llefaru 9-12 oed (cyf) 1. Lowri Elen, 2. Meinir Davies, 3. Rhys Davies, 4. Caryl Jacob. **Unawd 9 – 12 oed (cyf)** 1. Lowri Elen, 2. Rhys Davies, 3. Meinir Davies.

Elliw Mair, Silian gyda tharian am lefaru 12 - 16 oed a chwpan yr offeryn cerdd dan 16 oed.

Offerynnol dan 12 oed (cyf) 1. Lowri Elen Jones, 2. Meinir Davies, 3. Alpha Jones

Llefaru 12 – 16 (cyf) 1. Elliw Mair, 2. Aron Dafydd, 3. Gwawr Hatcher a Meleri Davies

Unawd 12 – 16 (cyf) 1. Dewi Urdge, 2. Aron Dafydd. 3. Elliw Mair Dafydd

Alice Isaac, disgybl yn Ysgol Uwchradd Tregaron yn ennill Tlws Celf a Chrefft



Llefaru i gyfeiliant - a'r enillydd oedd Lowri Daniel (dde) gyda'i chyfeilyddes Gwenan Jones, y ddwy o Lambed.

Cerith Morgan o Fwlchllan yn ennill y Gadair i rai o dan 25oed.

Guto Dafydd o Drefor ger Caernarfon yn ennill y Fedal Ryddiaith.

Gary Griffiths, Penbre yn ennill Llais Llwyfan Llambed ac yn derbyn siec o £1,000 ynghyd â thlws gwydr

Tomas Lyn Jones a Chwpan a lefaru 6-9 oed (cyf) a'i chwaer Lowri Elen, Llambed gyda un o'r cwpanau a enillodd yn yr eisteddfod.